





PRESENTED TO THE
LIBRARY BY:

1/6







IOLO MORGANWG.

Gwaith Iolo Morganwg.

*

Dan olygiaeth

CADRAWD.

Y rhan fwyaf wedi ei godi o lawysgrifau Iolo
yn Llanofar.

Hunodd, ond saif mewn hanes—ei gofiant.

Yn gufad ag eres;

Ceir llu'n dadganu'n gynnes,

I'n hiaith lan faint wnaeth o les.

DANIEL DDU

1913

LLANUWCHLLYN: AB OWEN

Y OEDDIR, DROS AB OWEN, GAN R. E. JONES A'I FRODYR
CONWY.

Y Rhagymadrodd.

IN un o'i lythrau at ei gyfaill Mr. Edward Williams, Llyfrwerthydd yn Llundain, ysgrifennodd Iolo Morganwg,—“Yr wyf wedi ysgrifennu rhan fawr o *Hanes fy Mywyd*. Ymdrechaf ei wneud yn gyfrwng y fath sylwadau ag yr wyf yn alluog i'w gwneud ar lenyddiaeth Cymru, hen a diweddar: ar yr iaith Gymraeg a'i gwahanol ganghenieithoedd (*dialects*); ar hanesyddiaeth y Cymry, eu moesau, eu dull o fyw, ag amrywiol hynafiaethau poblogaidd.”

Er pob ymdrech sydd wedi ei wneud gan ei edmygwyr i ddyfod o hyd i'r hunan-gofiant hwn, hyd yma mae eu hymdrechion wedi bod yn ofer, a gwyddom am rai wedi beiddio datgan eu barn na fodolodd “*Hanes fy Mywyd*” erioed ond yn mwriadau ag arfaethau yr hen fardd o Drefflemin. Ond, er cymaint fethodd gyflawni o'r hyn a fwriadodd er cyfoethogi llenyddiaeth ei wlad a'i genedl a garai mor angerddol, mae ei gyflawniadau yn amlach, a'i lafur yn helaethach na nemawr neb o'i oes a lafuriasant o dan yr un amgylchiadau ag anfanteision.

Ei enw bedydd oedd Edward William, a ganwyd e: newn lle o'r enw Penon, ym mhlwyf Llancarfan Bro Morganwg, tua'r flwyddyn 1747; ag yn Nhrefflemin yn yr un gymydogaeath, rhyw ddwy neu dair milldir o'r man ei ganed, y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Saer maen oedd ei dad, a dygodd y mab i fyny yn yr un alwedigaeth. Dyma fel yr ysgrifenna am dano ei hun yn ei ragymadrodd i'w farddoniaeth Saesneg, a

gyhoeddwyd ganddo yn 1797,—“Yr oeddwn mor afiach pan yn blentyn fel y barnwyd y buasai yn ddfudd i'm gosod yn yr ysgol, lle y cadwyd fy mrodyr am amryw flynyddau. Dysgais yr egwyddor cyn y gallaf gofio wrth weled fy nhad yn cerfio ar gerrig beddau. Fy mam oedd yn ferch i foneddwr, ag wedi cael addysg dda, a hi a'm dysgodd i ddarllen mewn cyfrol a elwir *The Vocal Miscellany*, gan na chymerwn addysg o un llyfr arall. Yr oedd fy mam yn gantores beraidd, a chan i mi ddeall mai o'r gyfrol honno yr oedd wedi cael ei chaniadau, yr oeddwn innau yn dra awyddus i'w dysgu. Y cwbl o'm llyfrau, neu yn hytrach lyfrau fy mam, oedd y Beibl, gwaith Pope, *Miscellany* Lintot, *Poems* Randolph, *Poetical Works* Milton, ychydig gyfrolau o'r *Spectator*, *Tatler* a'r *Guardian*, *The Whole Duty of Man*, *Medici Brown*, a *Translation of Ovid's Metamorphoses* Golding mewn hen lythyren, ynghyd a dau neu dri o lyfrau rhifyddol, a fynwyd imi gan fy mam, gyda'r hon y dysgais ysgrifenu, ychydig o beroriaeth, a'r pump neu chwech o'r rheolau blaenaf mewn rhifyddiaeth. Fy ymdrech barddonol cyntaf a wnaed yn Gymraeg, yr hon oedd iaith y gymydogoeth, er mai Saesneg oedd iaith ty fy nhad. Yn 1770 bu farw fy ngoreu o famau, ag er fy mod y pryd hynny yn dair ar hugain oed, yr oeddwn mor am-ddifad o wybodaeth am y byd a phlentyn newydd ei eni, fel y daethum i wybod yn fuan ar ol hynny. Yr oeddwn wedi gweithio wrth gelfyddyd fy nhad, oddiar pan oeddwn yn naw mlwydd oed; ond nid oeddwn wedi ymgyfeillachu nemawr a'm cyfoedion, nag wedi dysgu eu difyrwrch hwynt. Dychwelwn bob nos tuag at ochr tân fy mam, a

siaradwn neu ddarllenwn gyda hi. Pan awn allan chwenychwn leoedd anghyfannedd—y coedydd neu lan y môr ; a phan y dygwyddwn fod yn llawen, yr oedd yn ffolineb gwyllt y rhan fynychaf.”

Yn fuan ar ol marwolaeth ei fam, cawn ef yn naddu cerrig i wneud pont newydd Llundain ; a thra bu yn aros yn Llundain y tro hwn myfyriai ar adeiladwaith, a'r gwyddonau perthynol i'w gelfyddyd. O Lundain aeth i Dartford yng Nghaint, a bu yno am bedair blynedd wrth ei gelfyddyd saerniaidd. Yn ystod ei arhosiad yng Nghaint daeth yn ohebydd lled gyson i'r *Monthly Magazine* a misolion heblaw, ag yma y cyfansoddodd amryw o'i ganeuon Saesneg sydd yn argraffedig yn y *Lyric Poems*. Yn y flwyddyn 1777 (“blwyddyn y tair caib”) cawn ef yn dychwelyd i'w fro ei hun, ag o dan ddylanwad y dolydd meillionog a'r nentydd grisialaidd mae yr Awen yn ymddadebru. Ond yn fuan wedi ei ddychweliad cawn ef yn clafychu, ag yn dioddef yn chwerw oddiwrth ei hen elyn y diffyg anadl (*asthma*), yr hwn a'i herlidiodd hyd derfyn ei ddyddiau. Mae ei fyw-graffwyr yn lled unol yn dweud iddo ganlyn ei alwad, sef saer meini, oddiar ei ddychweliad i Forganwg hyd ei flynyddau diweddaf, a cherfiodd lawer o goffadwriaethau ar feddfeini, ag mae rhai o'r rhain yn aros mewn mynwentydd ym Morgannwg hyd y dydd heddyw.

Priododd yn y flwyddyn 1781, a bu iddo bedwar o blant, sef Taliesin (ab Iolo) ; Peggï, fu farw yn weddw ; Ann, a briododd â William Gwilt, Merthyr ; a “Lili Fach,” a fu farw yn 1793.

Treuliodd ddiwedd ei oes mewn dygn dlodi. Yr oedd bob amser wedi bod yn esgeulus o'i aur a'i arian, ag wedi dyfod pwys henaint a methiant teimlodd eu heisiau. Gwnaeth ei ferch Peggi William, gyflwr gresynus ei thad yn hysbys i'w gyfeillion mwyaf ffyddlawn, a ffurfiwyd Cymdeithas i'w gynorthwyo. Drwy eiriolaeth Mr. Redwood ar ei ran, yn nghyd a phobl Castell Nedd, derbyniwyd cymmorth hefyd oddiwrth y Literary Fund, trwy law Mr. Owen Rees, Gelli Gron. A thrwy hyn, a'r hyn a gai oddiwrth ei fab Ab Iolo, cysurwyd ei ddyddiau olaf.

Yn Rhagfyr 1826 bu Ab Iolo yn ymweled â'i dad, ag wrth ymadael derbyniodd fendith yr hen wr. Dyma eiriau yr hen bererin oddiar lan yr Iorrdonen. Dywedodd gyda difrifwch proffwydol,—“Yr wyf yn gwybod na welaf mihonoch mwyach yn y byd hwn. Buoch yn fab rhinweddol, a bydded i'r Hollalluog Dduw eich bendithio.” Yr oedd cyn hyn wedi traethu ei deimlad diolchgar o'r daioni rhagluniaethol oedd wedi ei fwynhau, trwy ei hir fywyd, a'i ymlyniad cadarn wrth y Gallu Dwyfol oedd wedi ei ddal ag wedi cynnal ei feddwl mewn gobaith a hyfder. Ar y deunawfed o'r un mis, yn y prydawn, gorffwysodd ei ben ar ochr ei gadair esmwyth, gyda dywedyd wrth ei ferch ei fod yn rhydd iawn oddiwrth boen ag y cysgai ychydig. Cwsg marwolaeth ydoedd. Yn y ffurf heddychlawn hyn y bu farw hen Fardd Morganwg, yn bedwar ugain ag un mlwydd oed.

Mae gweddillion yr hen fardd, ei wraig, a'i fab, a'i “Lili Fach” yn gorwedd yn yr un bedd yn eglwys Trefflemin. Claddwyd Peggi yn Llan-

Rhagymad odd vii.

illtyd, er ei holl fwriad yn ystod ei bywyd i gael gorwedd ym medd ei thad. Mae cofadail deilwng wedi ei chodi, a'i gosod ar y mur tu fewn i'r eglwys, ar gyfer ei fangre lonydd. Heddwch i'w lwch.

DISGYNIAD Y BARDD ODDIWRTH DEULU OLIVER CROMWELL.

WILLIAM AB IFFAN.		Odiwrth Cynfyn ab Gwerystan, Arlwydd Cibwyr ym Morganwg.
MORGAN		AD WILLIAM, o'r Eglwys Newydd, Morganwg a briododd chwaer Thomas Cromwell, Arlwydd Essex, o'r hen y cafodd ddau fab.

JOHN WILLIAMS, RICHARD		WILLIAMS, yr Iwrn a wnaed yn farchog gan Harri VIII., a orfu gymmeryd surnâm (cyfenw)
------------------------	--	---

SYR RICHARD CROMWELL,

|
ROBERT CROMWELL (alies Williams),

|
OLIVER CROMWELL.

Dywedai Iolo ei fod yn disgyn oddiwrth John Williams, ag y gallai brofi hynny yn hawdd trwy y cofrestrau plwyfol.* Honnai hefyd ei berthynas â "Merched y Tytalwyn."† Yn ol

* Waring's *Life of Iolo*. 137.

† Gwel *Hopkintiaid Morgannwg*, tudal. 60.

viii. Iolo Morganwg

achwedd arall gefais yn ei llawysgrifau yn Llanover, dywed ei fod, yn ol llyfr achau ei dad-cu, yn disgyn o William Cogan, Yswain, Crwner Morganwg yn y flwyddyn 1500. Yr oedd ei dad-cu Henry Williams yn gyfreithiwr.

Cyhoeddwyd yn ystod ei fywyd o'i weithiau :—

“DAGRAU'R AWEN,” neu Farwnad Lewis Hopcin, Fardd o Landyfodwg, ym Morganwg; Pont y Fôn, 1772.

“POEMS LYRIC AND PASTORAL,” in two volumes; London, 1794.

“SALMAU YR EGLWYS YN YR ANIALWCH,” yn ddwy gyfrol; Merthyr, 1812.

Onibuasai am lafur a diwydrwydd Iolo Morganwg, am ysbaid oes faith, buasai ein llenyddiaeth heddyw yn dlotach. Buasem, mae'n debyg, heb y “Myfyrian Archaiology,” y “Iolo MSS.,” ag o bosibl heb “Cyfrinach y Beirdd,” “Gweithiau Llywarch Hen,” a “Gweithiau Dafydd ab Gwilym,” yn gyhoeddedig; yn gystal a llawer o'r llawysgrifau Cymreig geir yn ein llyfrgelloedd cyhoeddus heb eu cyhoeddi eto. Mae ein prif eiriadurwyr yn ddyledus mewn modd arbennig i Iolo, ond wedi bod yn llawer rhy hwyr-frydig i gydnabod ei wasanaeth yn eu cynysgaeddu a defnyddiau at eu gwaith llafurfawr. Mae Iolo Morganwg, i'n tyb ostyngedig ni, yn deilwng o'i restru ymhlith prif gymwynaswyr ein cenedl.

CADRAWD.

Mynegai I'r Testynau.

	Tudal.		Tudal.
Ardwedd yr Awen	24	Englynion at Gyhoeddwr	
Araeth Iolo	92	y "Trysorfa" (1770)..	62
Awen	27	Englynion, Hyfforddiant	65
Bân uwch Denni	38	Geirddehonglydd, Y..	39, 107
Beddargraff Iolo	102	Gwawr Boreu Rhyddid..	51
Beddargraff Lili Fach ..	61	Gweddî'r Orsedd, set	
Beirdd Cymreig, Y.....	70	Gweddî'r Gwyddoniaid	
Brân ab Llŷr	21	(Tir Iarll)	86
Breiniau Dyn	46	Gweddî Trahaiarn Bryd-	
Cân—Rhyddhad y Caeth-		ydd Mawr	87
ion	56	Gweddî'r Bardd	100
Cyfarwyddydd parth Ce dd	104	Gwna, Gymru, Gerdd, dy	
Cyfeithiad Mydryddol o		ddylded yw	13
lythyr y Parch. D.		Gwyr Cwm-y-felin	40
Jones o Langanna, at		Hanes y Beirdd	69
Arlwyddes Hunting-		Iolo Morganwg a'r Gaeth-	
don	98	fasnach	52
Cyhoeddiad Eisteddfod..	86	Iolo yn galw ei hun yn	
Cywydd—"Gorymbil am		"Fardd Rhyddid"	44
Heddwch"	28	Me-ur Arwest	43
Cywydd, "Hanes Hywel"	34	Mesur Cerdd dafod	
Chwedlau, neu hanesion		Cyffredin	101
am y Beirdd	70	Rhagarweiniad, Y	3
Dadansoddiad o'r Wen-		Sioa Rhydderch o'r	
hwyseg a'r Wyndodeg	90	Amwythig	89
Daliadau crefyddol Iolo	97	The Newgate Stanzas ...	45
Diarhebbion Meddygol	64, 105	Tir Iarll	23
Disgynnaiad y Bardd oddi-		Trefnau'r Abred (<i>Metem-</i>	
wrth Deulu Cromwell..	7	<i>psychosis</i>)	111
Dymuniad y Bardd	61	Triban Morganwg	38
Ehedydd, I'r	61	Undod Daw	97
Englyn ar Depot	23	Yr Un Ceinmygedd	58

Mynegai I'r Materion.

I. CYMRU.

Ban uwch Deuni	38	Tir Iarll	23
Dymuniad y Bardd	61	Triban Morganwg	38
Gwna, Gymru, gerdd	13		

II. YR AWEN.

Adwedd yr Awen	24	Awen	27
----------------------	----	------------	----

III. HANES A LLENYDDIAETH Y CYMRU.

Bran ab Llyr	41	Mesur Arwest	43
Gwyr Cwm y Felin	40	Mesur Cerdd Dafod	101
Hanes Hywel	34	Y Wenhwysg a'r Wyn- dodeg	90
Hanes y Beirdd	69		

IV. YR EISTEDDFOD A'R ORSEDD.

Araeth Eisteddfod Caer- fyrddin	92	Gweddî'r Gwyddoniaid ..	86
Cyhoeddiad Eisteddfod ..	86	Gweddî'r Orsedd	87
		Hen Eisteddfedau	88

V. RHYDDID.

Bardd Rhyddid	46	Gwawr Bore Rhyddid ..	51
Breiniau Dyn	44	Rhyddhad y Caethion ..	56
Cân rhyddhad y Caethion	56	The Newgate Sta zas ..	46
Cân yn erbyn Caeth- fasnach	53	Yr un Ceinmyged	58

VI. CREFYDD.

Fy Arlwyddes garedig ..	96	Undod Duw	97
-------------------------	----	-----------------	----

VII HEDDWCH.

Gorymbil am Heddwch...	28
------------------------	----

VIII. GWYBODAETH.

Cyfarwyddyd parth Cerdd	104	Englynion Hyfforddiant	65
Diarhebion Meddygol	64, 105	Trysorfa Gwybodaeth ..	62

IX. MANION.


Englyn ar Depot	23	Er Cof	100
Beddargraff I ili Fach ..	61	I'r Ehedydd	61

X. GEIRDDEHONGLYDD.

Y Darluniau.

Tynnwyd y darluniau yn y gyfrol hon gan D. J. Griffiths,
Ysw., M.E., Maesteg, a Fred Evans, Ysw., F.R.Hist.S.,
Llangynwyd.

IOLO MORGANWG	<i>Wyneb-darlun.</i>	
CADRAWD	<i>Tudal.</i>	12
Lle ganwyd Iolo Morganwg	<i>I wynebu tu 1.</i>	25
Yr hen dy a'r tô cawn yn Penon, lle bernir i Iolo gael ei eni. Diweddar yw'r atodiad o'r ddeutu.		
Cip lwg ar Gwrt Treflemin	41
Un o'r hen ifermdai harddaf a mwyaf benafol ym mro Morganwg heddyw. Gw-llir sticyl yn arwain o'r eglwys trwy'r fynwent i'r Cwrt.		
Maen be lid o waith Iolo	57
Cerfodd lawer o goffadwriaethau mewn myn-entydd yn ystod ei oes.		
Eglwys Llancarfan	73
Dan gysgodau'r hwyr.		
Cofadail Iolo Morganwg	89
Ar fur eglwys Treflemin.		
Eglwys Treflemin	103
Lle'r hun a Iolo Morganwg ynddi.		



CADRAWD.

Dyma'r unig dudalen yr ymyrrodd golygydd y gyfres
yn effeithiol ag ef.]



IOLO MORGANW/G.

GWNA, GYMRU, GERDD; DY DDYLED YW.



AN am ddaioni Duw o'r dechreuad i genedl y Cymry, yn rhoi iddynt ymhob oes wybodaeth am dano ei Hun a'i wirionedd, a ddatganwyd yn Ngorsedd Alban Hefin, ar fynydd Garth, Llanilltyd Faerdref, ym Morganwg, 1797.

Y RHAGYMDRODD.

Trefn Beirdd Cadair Morganwg y sydd fel hyn:—Yn un peth, canu, a dangos o flaen cadair rhai cywyddau, englynion, ag* awdlau; yn ol yr hen arfer a'r hen gelfyddyd, fal y peth mwyaf effeithiol i gynnal yr iaith Gymraeg. Yn hyn o bethau rhaid yw gwybod y rheolau yn benigamp. Nid llawer y dydd heddyw a fedrent hyn; nid un yr wyf yn ofni am bob sir yng Nghymru. Y mae ambell un yn gwybod, neu yn hytrach yn hanner gwybod, rheolau Sion Dafydd Rhys; a'r hwn

SYLW.—* “Un o neillduolion Cadair Morganwg yw defnyddio *ag* yn hytrach nag *ac* yn gysylltiad. Mae *ag* yn gysylltiad gan holl lenorion Morganwg, o Iolo yn ol at Edeyrn Dafod Aur o leiaf.”

T. STEPHENS, Merthyr.

sydd yn gwybod y cyfan o honynt, ni wŷr agos hanner yr hen gelfyddyd wrth gerdd.

Gadawer i ni ofyn,—A oes tri yn y byd o ddyndion a wyddent hon yn gyflwyr? Gadawer i mi hefyd ateb y gofyniad, a dywedyd,—“Nag oes!” Y mae rhai yn awr, bydded a fynno, yn amcanu eu dysgu, ag fe allai y bydd rhai cyn bo hir yn eu gwybod yng Nghadair Morgannwg, a dyfod ag ambell un i'r wybodaeth o honi yw un o brif amcanion Y GADAIR.

Mewn peth arall, amcenir rhoddi ychydig wybodaeth ar gân i gyffrediniaid Cymru, am beth hynodion a fu gynt, am egwyddorion moesoldeb, ag hefyd am egwyddorion a dyledswyddau crefydd, cyn belled ag y gellir hynny heb gymeryd i fyny ddadleuon diles a welir yn rhy fynych ym mhlith pleidiau crefyddol. Cenhadon a gweinidogion heddwch yw'r beirdd, os glynant fal v dylent wrth eu hen ddefodau, ag nid iawn iddynt ymdrafod âg ymrysonau o unrhyw ba bynnag; ag y mae digon, os nad mwy na digon, o offeiriaid a brenhinoedd, a phlant eraill i'r bobl dan enw pregethwyr, yn y byd i ddwyn y cyfryw waith yn y blaen. Gadawer iddynt.

Mewn cerddi addysg o'r fath hyn, nid oes gofyn am gynghanedd, ag nis gwelir hynny, namyn o rŵw ddamwain. Caniadaeth egored rŵydd a llithrig heb ofalu am ddim ond odlau didwyll mesur didwyll yw'r unig bethau anhebgor mewn perthynas i'r gerddoriaeth; os bydd fal hyn, fal y rhedo'n rhwydd ar erddigan, neu y dôn, y mae pob peth o'r gorau.

Yn wir, gofynnir am iaith bur a rhywiog, ag eglur ymhob peth, ag nid prydyddu fal y mae agos

oll o'r rhai a lystenwir yn brydyddion yn iaith y domen, math o ynfydrwydd a barbareidd-dra na chlywyd son am dano erioed ond yn ein plith ni y Cymry. Y mae pob cenedl arall yn amcanu purdeb iaith ymhob peth y cyhoeddant, a'u prydyddiaeth a'u llafariaeth yn gyfryw lle bynnag y bo.

Nid oes yn y gân ganlynol air bach nas ceffir mewn rhyw fan neu gilydd o'r Beibl neu *Salmau Dafydd* Edmund Prys, oddieithr y geiriau *eilir a mefyryd*; eto llawer gair sydd ynddi nas deallir gan y rhan fwyaf, er eu bod fel y tybiant yn ddarllenwyr mawr o'r Beibl, ag yn cymeryd arnynt ei ddeall.

Amcan y gân hon yw dangos pa wybodaeth am Dduw ag egwyddorion crefydd oedd ymhlith y Cymry yn y cyn-oesoedd,—gwybodaeth o'r Efengyl, pa fodd y cynhelid ar gôf egwyddorion crefydd, deddfoldeb, moesoldeb, breiniau a defodau cenhedlig, cyfreithiau, ag yn wir pob gwybodaeth arall, megis hanesion lleol.

Gellir yn hawdd ddeall wrth ein hen lyfrau mai ar gân y rhoddwyd gyntaf i'r Cymry egwyddorion Cristionogaeth. Swydd neu alwad barchedig a derchafedig iawn oedd un y bardd ymhlith yr hen Gymry; rhaid oedd i'r bardd fod yn wr hardd iawn ei ymarweddiad. Gwae ni nad felly y mae yn awr. Cymerwn addysg mewn daioni, bydded a fynno, ag onid ef, da fyddai i ni gymeryd cywilydd,—

“Eu Ner a folant,
Eu hiaith a gadwant.”

☉ WNA, Gymru, gerdd, dy ddyled yw,
 I'th unig Dduw a'th wanar,
 Gwybydd a chân ei fawl, mai Ef
 A wnaeth y Nef a'r ddaear ;
 Fe roes lawn olwg ar y gwir
 I bawb o'th dir yn gynnar,
 O cân ei glod am hyn o ddawn
 Yn wresol iawn dy lafar.

Pan oedd y byd mewn llawer man
 Yn gorwedd dan y du-nos,
 Da fu goleuni'th Nefol Dad,
 Da iawn i'th wlad ei ddangos :—
 Enw yr Un Duw a gaed i'n mysg,
 A'i ddeddfau'n addysg agos,
 Caid gwir ddoethineb yn ein tir,
 Ni orfu'n hir ei aros.

Yng ngherddi beirdd yn oesoedd llên,
 Caed addysg hen dderwyddon ;
 Un Duw, cyhoeddant hyn heb wall,
 A gredai'r call gyn-neifion ;—
 Da dysgent hwy reidioldeb hedd,
 A'i goledd yn y galon ;
 Deddfau cyfiawnder oedd eu cân,
 Ar fyrdd o lân benhillion.

Da dysgu'r gân, rheidioldeb gwir
 Ai lles i'r tir lle'r ydoedd,
 A glynu wrtho'n daer o hyd
 Er gwaetha'r byd a'r bobloedd ;
 Gwae Gymru'n awr o'i chyflwr caeth,
 Ei bod mewn gwaeth amseroedd,
 Ychydig serch at wir yn awr
 Sy'n mhlith ei mawr niferoedd.

Deddf oedd i'r bardd gyfrannu dysg,
 A'r gân ym mysge ei wladwyr,
 Ag na roe air ym mhen y wlad,
 Na fyddai'n fad ei ystyr ;
 Deddf iddaw feflu balchder brwysg,
 A dofi rhwysg rhyfelwyr,
 Deddf oedd mai ar wirionedd syth
 Y rhoddai fyth ei fyfyr.

Nid oedd i fardd roi llaw ar gledd,
 Cenhadwr heddw y byddai ;
 Annog daioni'n gawr o'i ran
 Ym mhob rhyw fan lle cerddai ;
 Dosparthu tangnef yn waith mād
 Rhwng gwlad a gwlad a wnelai,
 Yn ddrych i'r byd bucheddai'n lân,
 A phawb ei gân a gredai.

Tri pheth anheggor oedd ar fardd—
 Bod fyth yn hardd ei fuchedd,
 Dirio tangnefedd yn ddi-dawl,
 A thaenu gwawl gwirionedd ;
 Hyn aeth y son drwy'r byd ar goedd
 I'n cenedl oedd anrhydedd,
 Arferwn hyn o ddosparth mad,
 A phoed i'n gwlad ei goledd.

Cyn mynd o'r addysg hen ar draul,
 Cyfododd Haul Cyfiawnder,
 Ar wlad y Cymry yn fore iawn
 Tywynnai'n llawn disgleirder :
 Dysgeidiaeth Crist a ddaeth i'n tir,
 Yn ddosparth gwir nefolder,
 Yn arwain dyn heb air yn dwyll
 Hyd eitha pwyll duwiolder.

Da iawn fu gwaith hen Frân ab Llyr,
 Oedd wr o bybyr fwriad ;
 Newyddwr da dan Dduw oedd ef,
 Fal un o'r Nef yn gennad ;
 Daeth a goleuni Duw i'n mys,
 Ag i'r iawn ddysg arferiad,
 Gwahoddiad mawr Tywysog Nef,
 A hyfryd wledd Ei gariad.

Cydunai'r beirdd â theulu'r Nef
 I godi llef gorfoledd,
 Rhoent grefydd Crist ar gân i'r wlad,
 Yn addysg gân gwirionedd ;
 Yn yr uchelder clod i Dduw,
 I bob dyn byw tangnefedd,
 Ewyllys mād o nefawl fryd
 I bawb o'r byd heb ddiwedd.

Brenin oedd ef ar ddewrion wŷr
 Hen Frân ab Llyr fendigaid,
 Ond ymwrthododd ef yn llon
 A'i rwysg a'i goron auraid ;
 Dysgu gair Duw a wnai'n ddiball
 I bawb o'i gall gyweiriaid ;
 Byw buchedd Cristion ymhob rhith,
 Ag oesi'n mhlith ffyddloniaid.

Ar fyrr fe bwyai'n swch ei gledd
 At orchwyl hedd a gwynfyd,
 Gwnai arf ymladdai yn bladur wair,
 Fal archai Gair y Bywyd ;
 Ei wŷr ni chânt ryfela'n hwy,
 Na dysgu mwy'r gelfyddyd,
 Amcanai lwyr ddiddymu trais,
 Hyd eithaf cais a chyngyd.

Nid felly 'nawr, frenhinoedd byd,
Y rhowch chwi'ch bryd un amser ;
Ond tywallt gwaed pob difrod maith,
Eich swydd yw gwaith creulonder ;
Lladd gwir yw'ch cais, a'i alw'n dwyll,
Yn chwedlau amhwyll ofer ;
Duw'r hedd o'ch rhwysg a'ch chwyth, a'ch
chwâl
Bydd hyn eich tâl ar fyrder.

Beirdd gwlad hen Gymru, poed eich gwaith
Goleddu'n iaith gysefin ;
I bob daioni canwn glod,
A cheisiwn fod yn ddi-flin ;
Rhyfela a'i waith i ni ni wedd,
Tywysog Hedd yw'n brenin ;
O ceisiwn fod, tra fyddom byw,
Yn un â Duw'n mhob cyfrin.

Os gwr fai gynt mor gryf a chwâr,
Mewn rhodres mawr a thrawsedd,
Gellid â chyngor cân ei ddwyn
At gyfraith fwyn trugaredd ;
Duw Iôn a garai, meddai'r bardd,
A fyddai hardd ei fuchedd,
Rhodiad a fyddo i Dduw yn gân,
Wrth reol wâr tangnefedd.

O Gymru, cofia foli'th Iôr,
Rho goel i'w bêr leferydd ;
Pwysed Ei ddeddfau ar dy fryd,
Fal bo dy fyd yn ddedwydd ;
Ar ol hir gosb am bechod maith,
Cais rodio taith o'r newydd ;
Cais ffyrdd dy Dduw, cai'r rhain bob awr,
Yn wynfyd mawr ei gynnydd.

Tra fo dy feirdd yn cadw'th iaith,
Na fo eu gwaith yn ofer ;
Boed ar eu cerddi o bob rhyw
Lais deddfau Duw'r uchelder ;
Barddoniaeth yw'th gelfyddyd fawr,
Bu gynt yn fawr ei llafar ;
O bydded fyth yr hyn a'i gwedd
Yn addysg hedd bob amser.

A thro bob cynnwrf mawr y byd
Yn arwain bryd an-nwyfol,
At waed a rhyfel ymhob man
A sarnu'r gwan cystuddiol ;
Bid iaith dy gerddi 'mhlith y gwir
Drwy gyrrau'th dir yn hollol,
Na ddeled byth ond iawnder hardd
O ben un bardd awenol.

BRAN AB LLYR.

Ef a elwir mewn llyfrau Brân ab Llyr Fendigaid, Brân Fendigaid, a Bendigedig Frân ab Llyr. Oedd frenin neu dywysog ar dalaeth Essyllwg, sef y rhan o Gymru y sy'n awr yn cynnwys Morgannwg, Gwent, Brycheiniog, Maelienydd, Maesyfed, a'r wlad rhwng Gwy a Hafren. Ei fab Caradog ab Brân, a elwid Caractacus yn y Lladin, oedd ryfelwr glew, ag a safodd yn gadarn dros naw mlynedd yn erbyn holl alluoedd Rhufain, ag a fu yn llwyddiannus yn eu herbyn mewn mwy na thri ugain brwydr; ond o'r diwedd efe a fradychwyd i ddwyllaw y Rhufeiniaid, efe a'i dad, Brân ab Llyr, a'i frodyr, a'i wraig, a'i blant, a'i chwaer Eigain, a hwy a ddygwyd i gyd i Rhufain, lle y gwnaeth Caradog araeth ardderchog iawn o flaen yr Ymherawdwr Claudius, yr hon sydd ar gôf a chadw gan ysgrifenywyr Rhufeinaidd, yn enwedig yn llyfr Tacitus yr hanesydd. Gwedi bod yno ryw faint o amser, cafodd efe a'i deulu eu rhyddhau, a dychwelasant yn ol i Gymru.

Eigain a briododd bendefig o Rhufain, ag mewn ychydig o amser hi a'i thad a ddaethant yn gyd-nabyddus a rhai Cristionogion, ag ymhlith eraill â'r Apostol Paul. Brân ab Llyr, ei ferch Eigain, a dderbyniasant y grefydd Gristionogol, neu'r ffydd yng Nghrist, fel ei gelwir gan ein hysgrifenywyr boreuol.

Wedi bod saith mlynedd yn Rhufain gyda'i ferch Eigain, dychwelodd yr hen dywysog i Gymru, lle bu'r cyntaf oll yn pregethu'r grefydd Gristionogol. Ei ferch, Branwen ferch Llyr, a

droes hefyd yn Gristion, ag a fu gyda'i thad, meddir, yn taenu gwybodaeth o'r Efengyl ymhlith y Cymry. Dywedir hefyd bod Llyr Llediaeth, tad Brân Fendigaid, yn fyw ar ddyfodiad ei fab yn ol o Rhufain, ag er ei fod yn wr hen iawn, iddo gael ei ddychwelyd i'r ffydd Gristionogol, a gwneud ei ran yn yr awr olaf o'i ddydd i gyhoeddi'r "Newyddion da o lawenydd mawr" ymhlith ei gyd-wladwyr. Brân ei fab a fu hynod iawn am ei dduwioldeb a'i egnioldeb yn pregethu'r Efengyl ymhlith ei genedl, ag am hynny y cafodd ei alw Brân Fendigaid ab Llyr a Bendigaid Frân ab Llyr. Dywedir yn yr hen ysgrifau mai yn Ninnrhefen (Dunraven) yr oedd yn byw.

Hwn yw'r hanes a roddir gan y rhai hynaf o'r holl ysgrifenywyr Cymreig am bregethiad cyntaf yr Efengyl ymhlith y Cymry. Da fyddai i'n haneswyr chwilio mwy nag y maent ar ein hen goflyfrau a'n coffadwriaethau, pa rai sydd yn dwyn llawer o liw gwirionedd ar eu hwynebau. Eisingrug gelwyddau y monachod Pabaidd, fal mae'r un am Joseph o Arimathea a'i ffon, ag eraill o'u bath, elont i'r diawl, at yr hen wr du o'r wlad isod, ag idd ei frodyr y Pabyddion.

Dygydd Llyr a'i fab Caradog a'i deulu yn garcharorion i Rhufain yn y flwyddyn o.c. 53, ynghylch ugain mlynedd wedi dioddefaint Crist. Y mae Gildas yn dywedyd mai ynghylch hynny o amser y daeth yr Efengyl gyntaf i Ynys Prydain. Gwedi son am yr ymladdfa waedlyd a fu rhwng y Cymry, dan eu brenhines Buddug, a'r Rhufeiniaid yn y flwyddyn 60 neu 61, y mae yn chwaneu fal hyn: "Ar ol du-rhew gauaf tra

fyrnig y cynhesodd Haul y Cyfiawnder ein bro ni
â phelydr ei athrawiaeth nefol."

Gellir casglu llawer o bethau a dalent eu
chwilio yn fanwl, ond rhyfedd mor anysgedig yn
y pethau hyn y myn cenedl y Cymry fod.

TIR IARLL.

Einion ab Collwyn a ddodes y gadair gyntaf yn
Nhir Iarll, lle ei gélwid "Cadair Einion," ag yno
y bu dros hir amser. O'r diwedd myned yn an-
nosparthus, a'r Arlwydd* Risiart Iarll y Clâr, a'i
hadalwes at ddosparth a dodes arni yn ei amser
ef. Y Risiart hwnnw a ddoded enw Tir Iarll ar
y cwmwd, ag enw gwlad Clâr ar Forganwg, ag o
hynny y gelwid Cadair Tir Iarll, a'r Gadair Gwyr
wrth gerdd dafod a thant a drefnwyd yno. Y
drefn honno yw'r un hynaf ar arfer yn awr ym
Morganwg, ag y mae cadw ar gôf yr hen drefn
fal y bu yn yr hen amseroedd er yn oes oesoedd,
o ddyfodiad Cenedl y Cymry gyntaf i Ynys
Prydain, ag erni nid oes drefn ar wyr wrth gerdd
dant, namyn ar ddatgeiniad o grythor.

ENGLYN AR DEPOT.†


D HODD ein Iôn tirion yw te,—mwyn addas,
Nas meddwant a'i yfe;
Rhy awr bêr hwy'r a bore,
O'i weini'n lân yn ei le.


* Yn y Wenhwysaig cyssegrir y gair *Arlwydd* fel enw ar
y Duwdd yn unig, a chymrhwysir *Arlwydd* at urddasolion
gwladol.

† Yr oedd Iolo Morganwg yn ddiarebol am ei hoffder o dâ.

ADWEDD YR AWEN.

SAITH serchog hen ddarogan
 Y sydd yn gelfydd ar gân,
 Hon a ddywawd yn ddwyswawl
 Y daw ail ddydd gwenydd gwawl;
 Yn brysur haul i'n bro-dir
 Gwedi nos a gaed yn hir,
 Haf ar ol gauaf a gawn,
 Yn ddi-araul yr hin diriawn;—
 Y llwyn y bu dylluan
 Dan rewlyd loer ag oer gân,
 Cân edn dof ei oseg,
 Ym mwllch dêr cân mwyalch deg,
 Ag eos y nos uwch y nant
 Yn miniau seiniau moliant.
 Brudiau cyngan y gân gynt,
 Addewidion hedd ydynt;
 Addewid adwedd awen
 O beraidd had y beirdd hen;
 Yr hen addysg rinweddawl,
 Haul y gerdd yn heiliaw gwawl.
 Y brif wybodaeth i'n bro
 A'i gloywedd yn goleuo;
 O deued y dydd dien,
 A'r amser yn ber i ben,
 Y sydd yn ddu-nos heddyw
 Hyd lawr y bydd rhylllyd ryw,
 I roi dawn am eiriad wedd,
 A gwenau i fawr ogonedd.
 Gweler, fe ddaeth i'r golwg
 Yn wawl mad er niwl a mwg,
 A'i oriau gwell, ei wawr gain
 A dyrr o gwrr y dwyrain;





LLE GANWYD IOLO MORGANWIG.

Yr hen dŷ tŷ cawn yn Penon, lle bernir i Iolo gael ei eni. Diweddwr yw'r atodiad o'r ddeutu.

Henffych gwell yn cymhell cerdd
Hoenwiw fawlgainc nefolgerdd.
Y cynfardd yn y cynfyd
A ganai fawl, gwyn ei fyd,
I ddoeth a fyfyrïai ddysg,
I'r hyddawn a roe addysg ;
Cerddi'r hen bwyll cywir-ddoeth,
A geiriau nwyf eu gwir noeth,—
A barai ymhob bwriad
Ddeall ter a mwynder mad ;
Enynnai ddyn i'w enaid,
Yn dân oes y gân a gaid ;
Yn eiriau rhif y prif-fardd
A'i gelfyddyd hyfryd hardd ;
I'r deddfawl a'i freiniawl fryd
Ar heddwch i'w gyrhaeddyd,
I bob doeth, i bob dethawl,
Pur fyth a ddarparai fawl,
Gwrolion a glewion gwlad
A chof am eu derchafiad,
I'r haelwych a'i rïaled
Rhwydd ei gais a roddai ged.
Hen awen hoew ei neued
Gynt a ddug ei llug ar lled,
Dysgai wirionedd dwysgall,
Gwnai wyr byd i gyd yn gall ;
Gyrrai'r gwawl o'i gaer ar goedd,
A dorrai drwy'r dyfnderoedd,
A dawn gyson danghosai
Iawn a barn y man y bai ;
Hoewa brawf a wnai brifardd
Yn gain a'r hadain hardd ;
'E chwiliïai'r holl uchelion
A'i bro hardd ar lwybrau hon ;

Haul a'r ser a'r lleufer llawn,
 Cwrr ag adail Caer Gwidiawn ;
 Nofiai dir y Nefoedd,
 Yna'n ail yn annwn oedd ;
 Chwiliai'r oll, dim ni chollai,
 Myn lliw'r iawn man lle'r ai ;
 Chwiliai maithder amseroedd
 Y rhyw a'r hynt iddynt oedd ;
 Chwiliai cylch haul, ag eilchwyl
 Lloer gain, a'i holrain, ei chwyl ;
 A deall ansawdd dien
 Oll oedd o'r bydoedd uwchben ;
 Chwilio eilwaith, gwaith oedd gall,
 Y ddaear taer am ddeall ;
 Taer am wybod nod a naw
 Pob eidnwyf brif, pob adnaws ;
 Tramwy'r holl fyd, rhoi tremiad
 Ar fwys a glwys ymhob gwlad ;
 Drych ar bob gwrthrych a gaid
 A'i anian oll a'i enaid ;
 Hi dreiddiai droed goed ei gwig,
 Tew fodau'r byd tyfiedig ;
 Yna mysaing tonn meusydd,
 Delw'r blodau gemau gwýdd ;
 Holl dylwythau llysiaur llawr,
 Hoew dorfoedd a'u lles dirfawr ;
 Rhai'n rhoi ffrwythau bwydau byd,
 Rhai achoedd yn rhoi iechyd ;
 Gwelai'r bardd rai llawn harddwch,
 A'u rhoglau'n bur o'u fflur fflwch ;
 Gwiw naws oll a'u gwenau serch,
 Yn ennyn i'w fwyn annerch ;
 Bid moliant i'r Bod mawr-wiw,
 Yn beraidd gân i'r bardd gwiw ;

Mawl i'r Iôn sy'n dirion Dad,
 A'i ragorai'n bur gariad ;
 O ddyd a mawr ddaioni
 Dofydd Dad er dy fudd di ;
 Yn ol at Awen hwylus,
 Ydd af, y rhedaf o'm rhus ;
 Carawdd cyfiawnder cywrain,
 Flyrdd gwirionedd a'u gwedd gain ;
 Deddfoldeb a'i glaerdeb glwys
 A droe'r cam o dŷ'r cymwys ;
 A weiniaï a fai uniawn,
 Gyrrai ar oll garu'r iawn,
 A charu'r heddwch ei ran,
 A rhoi'n wledd ei gwedd ar gân.

[*Llanover MSS., Vol. 54.*]

AWEN.

Ceisiais, amcenais o'n ceinwawl—Awen,
 Iawn hoewi'r gwir nefawl ;
 A'i doddi'n gelfyddydawl,
 Nerth i gyd yn eitha gwawl.

AWEN.

Noddais i 'mryd yn addwyn,
 Er yn fab yr Awen fwyn,
 I'n iâs i'r ei naws eirian,
 Fy myd i gyd oedd y Gân ;
 I mhoen fyth ! Am hynny o fai
 Un o'm ceraint ni'm carai.

GORYMBIL AM HEDDWCH.

A ddatganwyd ger bronn Beirdd Ynys Prydain, yng Ngorsedd Gyfarch, ar Fryn Dinorwig, yn Arfon, ar wyl yr Alban Elfed, pan oedd oed Crist yn 1799.

“Y gwir yn erbyn y byd.”

S cân o lwys anian serch,
 Hedd dyner! a faidd annerch,
 Erglyw Di'n llef o'th Nefoedd,
 Erglyw'n cwyn a'n galar coedd;
 Blin, ymhob cwrr, cyflwr caeth,
 Ein byd gan anwybodaeth;
 Drwg a'i dras dewisason,
 Ar ddaioni ffroeni'n ffrom.
 Dewis, nid golau diwall
 Yn nhes dydd, ond y nos ddall;
 Ag angau (tal gwyniau gwyd)
 Llwyra bai, yn lle'r bywyd.
 Rhyfel yn gawr, sy'n rhwyfaw,
 Fal tonnau'r aig, fal draig draw:
 A'i anrhaith yn faith ei fâr,
 O Dduw, 'n cylchynu'r ddaear.
 Cawn ddirwyllt pob cynddaredd
 Hyd ein gwlad, yn dwyn ei gledd;
 Myfyria'n flin ei drin draw,
 Yn agwrdd mae'n ffyrnigaw:
 Câr ef oddeithio trefi,
 Am waith broch mae'n groch ei gri.
 Och o'i waed, gan ymchwyddaw,
 A'i lid fel mellen o'i law,
 A'i ddefawd iddo'n ddifyr
 Bod dros ei draed mewn gwaed gwŷr.
 Lladd oll fo'n lluddio'i 'wyllys,

29 Gorymbil am Heddwch


Ei gais ef yw llef o'i lys ;
 Hyll olwg ! a'i holl elwch
 Yw gruddfan y truan trwch.
 Och o'r milwr ! Annwr yw,
 Dwedaf, er dewred ydyw ;
 Byw mewn gradd yn ei addef
 A wedd i wr, ni faidd ef ;
 A fedd ei swydd ni faidd son,
 Ni fynn gof am fyw'n gyfion ;
 Mae'n ofni'r gwir yn irad,
 A phawb a'i myn, a phob mād ;
 Mwy na'r bedd ofna'r heddwch
 A'i wynfyd pur i'w fflur fflwch.
 Nid gwrol ond a garo
 Gyfiawnder, yn ber lle bo ;
 Y gwrol hyff drugaredd
 A rhoi pob cannerth i'r hedd ;
 Dwyn yn ystig, o'r dig du,
 Oll i'w nawdd, a'u llonyddu ;
 Gwared a choledd gwirion
 A'i holl fryd, heb wall i'w fron.
 Am alaeth y mae milwr,
 I'w hau drwy'r byd, ynyd wr ;
 Gormesu a garw ymosod,
 Ar ladd dyn y glŷn am glod ;
 Ar ben bob cam rhy'r fflam fflwch,
 Gwae'r eiddil a gâr heddwch ;
 Cair e'n frwysg yn ymrwysgaw,
 A llid arth, y man lle daw ;
 Yn poeri tân, peri twrf,
 Ag ennyd drwy'r byd gynnwrf ;
 Difrawd, a thrallawd, a thrais,
 Nid amgen, nod ei ymgais.
 I'n dydd ni, moli milwr
 Sydd uwch lais ar gais gwr ;

Mawr yw nwyf y ffugddwyfawl
 Am waith trin, pob min a'i mawl;
 Ei enw a'i fawl y sy'n faith
 Ar gân hunangar gweniaith;
 Ar ei ol (ef addolant)
 Y llu truthgar anwar ant,
 A garw floedd gorfolant,
 Os eu traed mewn gwaed a gânt.
 Carant ymladd a lladd llu
 A faidd ymdangnefeddu,
 A faidd son am wirionedd
 Lleufer hardd a llafar Hedd.
 Gan faint y dir anhiriawn,
 Amddifaid, gweiniaid a gawn;
 Yn oll o'u ffyrdd, myrdd a mwy
 Yn gostwng dan flin gystwy;
 Gweddwon drwy'r wlad yn gwaeddi
 Llif o gwyn oerllef "Gwae ni!"
 Gwae! Gwae! Y mae ymhob man
 I'w ganfod môr o gwynfan.
 O ryfoli rhyfelwr,
 Ymchwydda'n gerth, anferth wr;
 A gwawl cydwybod fe gyll
 Yn y diwedd a'n dywyll;
 Dan y nef ni wyr ef rin
 O fudd, ond gwaedgar fyddin;
 Y gerdd feunyddiol a gâr
 Y cun gwael, yw cwyn galar;
 Ei fwyd faeth yw llef adfyd,
 Lledu'r bâr, trallodi'r byd.
 Proffwyd wyf i'm nwyf a'm nerth
 Bwriadfawr i'm cân brydferth,
 Y gauaf duaf i'w daith
 Hir an-merth a'n llwyr ymaith.
 Daw haf, a gwenaf o'i gael,

Gorymbil am Heddwch 31

Iach dywydd Heddwch diwael,
 Daw i'n hwybren dien des,
 Awyr gain a'i hawr gynnes ;
 Cethlydd, yn datgan coethlef
 Gwir a'i nerth, o gaerau'r nef ;
 Y deddfawl, pob mad addfwyn
 A'i gwel, a derfydd y gwŷn ;
 Er wylaw a hir alaeth,
 Er awr brudd pob cystudd caeth ;
 I'w llwyr les, daw oll i'r lan
 I'r gwynfyd, o'u hir gwynfan.
 Fy marddair, y gair a'm gwedd,
 Yw gair anwyl gwirionedd ;
 Gwir a'i lef o nef yn wâr,
 Iaith Duw, hyd eitha'r ddaear ;
 Cawn adwedd teyrnas heddwch,
 Daw'n ber yn ei fflowder fflwch ;
 Diwedd rhyfel a welir,
 Dydd gweinio cledd, a hedd hir,
 Nwyf i lu nefol awen,
 A dyn i'w bwyll, a Duw'n ben.
 Duw Dad ! O deued y dydd
 I'w llafurwaith lleferydd,
 Bydoedd pob llwybr o'r wybren
 Lle bloedd ei miloedd "Amen !"
 Dangos dy ben ysblenydd
 O'th nef, O Dangnef, i'n dydd ;
 Llef gadarn sy'n galw arnad
 Yn glaer, o bob cwrr o'n gwlad ;
 Dyred, mae'r doeth yn d' aros.
 Mal claf am yr haf a'i rhôs,
 Ir yw'm serch, i'r Ynys hon
 O dyred ! brysia'n dirion ;
 I'th haddef lle'th wahoddir.
 Cai oll yn d' arfoll i dir ;

Bydd angei i'n tawelu,
 A gwenau gwâr a gwen gu ;
 Iawn dy waith ag yn dy wawl
 Dy nofiwn i fyd nefawl ;
 A rhodiwn ffyrdd Paradwys,
 A'i thir ffraw, yn dy law lwys.
 Er maint ein gwae, mae i'n mysg
 A gâr Hedd, a gair Addysg ;
 Rhai'n dystion gwychion i'r gwir,
 A'i wawl i'n plith a welir ;
 Taer eu llais, er maint yw'r llid
 A'r amledd a'u mawr ymlid,
 Er maint budredd llygredd lwyr,
 Yma soniant am synwyr ;
 A diball wawl cydwybod
 Gair eu Náf, y gwir a'i nôd.
 Dyred, O Dangnef dirion !
 At a'th gais, a'u llais yn llon ;
 Awen y gerdd, yn eu gwaith,
 Sy'n gweini sain eu gwin-iaith ;
 Cân a rydd, cain yw'r oddeg
 Yn ein mysg ei dysg yn deg ;
 E'th fawl beirddion gwychion gant,
 A'u meliaith hwy'th ganmolant ;
 Adroddant ein Derwyddon,
 Gân newydd â dedwydd dôn ;
 Ar bob bryn, yn nhes gwyn gwawl,
 Gawr, a'i floedd gorfoleddawl.
 Cyfunllef â'r côr nefawl,
 Y canwn, fyrddiwn, dy fawl ;
 Cân a dyrr a difyr dôn,
 Y culi o bob calon ;
 Cân a'i bloedd yn cyhoeddi
 O Nef ymwarded i ni ;



179
180
181
182
183
184
185
186
187
188
189
190
191
192
193
194
195
196
197
198
199
200

Beddfaen 9.

Wil Hopcin y Prwydd ym Mynwent
Llangynydd a'i dad.

Here lieth the body of Hopcin Thomas.
Died + xxxviii (stone reads 48.)

Here also lieth the body of William
Hopkins deceased the 9th of August 1741.
aged 40.

Dyma'r lle gole gweloch i'w ymgyrwr
Dan gderan yob trislock
Ostion chwi ystyrywch
Llyg a' llen hawen a'r lluch
[Ll. fan a'i cant mhell]

At y'r hollfod hyspud hedd
a'i ffordd ond offrodd.
[Parhedig Mr. Thomas vicar
Llangynydd a'i cant] mhell.

[Gwaith Mr. Erasmus o Fargam ymgyrwr
a'i fab a'ed hollfod
& Hopkin mhell.]

yr ydaedd, meddai Leon Bradford, ym
Cysgod o Hopkin Thomas Rhitig y Prwydd
o'r yelli fyd, a hwnn o Hopkin Thomas
ab Penlon Officiar o Llangynydd
a' enny dau 10 neu 12 cend hest
a'i enwan heb yn ail Thomas a Hopkin,
bu rai o hynafaid y Hopkin ym
y Ffynnon neu y'rall y Prwydd ym
Cysgod o'rall a' fyd o'r rai hynafaid
ym y Ffynnon, yr all hynafaid Hopkin
ym y Ffynnon, gan foch o'r un Ffynnon
y Prwydd o'rall re gan foch o'r un Ffynnon
Hopkin a'i hynafaid o'r un Ffynnon
ostion offiari o'r Ffynnon hynafaid Hopkin

LLAWYSGRIFEN IOLO MORGANWG.

"Beddfaen Wil Hopcin, y Prwydd, yn Mynwent Llangynydd, a'i dad.
Codwyd gan Iolo. Erbyn heddyw mae y Coffadwriaeth wedi llwyr
ddiflannu.—[C.

Gorymbil am Heddwch 33

Ag Ynad Nef yn gan-nerth
 I'n byd ni, heb oedi nerth ;
 Derfydd ein ochain dirfawr
 Ger dy wen, egor dy wawr ;
 Derfydd nos hagr ein dagrau,
 Ger haul a gwres y tes tau ;
 O'r llwch i'r lan daw'r gwan gwâr,
 O'n golwg fe ffy'n galar ;
 Tro'n ol wrth arch ein dolef,
 I'n daear ni o dir nef ;
 Dere'n fwyn, i'n dwyn yn d' ol,
 I noddfa'r pwyll cynheddfol ;
 Lle tywyn gwen llawenydd
 Yn dy wawl, a bythawl bydd ;
 Lle ni chair ffordd i'r gorddwy
 Na threisiwr na milwr mwy.
 Duw, hyd atad, Tad wyt ti,
 O ing addoer mae 'ngweddi ;
 Darostwng ein dir dristyd,
 Bâr creulon beilchion y byd ;
 Dangos dy hun, Gun Gwiwnef,
 Lle'th gais, fy Ner ! llawer llef ;
 Rho'th farn, bydd Ynad arnom,
 Lludd fôrgymlawdd ein ffawdd ffrom ;
 O Dduw ! gwel fawredd ein gwall,
 A ddaw o'n gwên di-ddeall ;
 O'n beiau (drwg yw'r bywyd),
 I'r iawn bwyll arwain y byd ;
 Yn lle gwaith blin y trin trwch,
 O Dad hyddawn ! dod Heddwch.
 Iôn wyd, er difa'n hadwyth,
 Bydd Frenin pob llin, pob llwyth ;
 A dyn, ym mhob daioni,
 Yn addas i'th deyrnas di.

“ Duw a phob daioni.

HANES HYWEL.

Sef un a fu hael yn ei dlodi, ag a droes yn gybydd angor pan gafwys gyfoeth; hwn a ddatganwyd yn Ngorsedd Beirdd Ynys Prydain, ar Fryn Briallu, gerllaw Llundain, ar ddydd cyhydedd Haul y Cynhauaf, pan oedd oed Crist 1793.

SYWEL oedd wr hael i'w ddydd,
 Ni welid un ei eilydd,
 Tra bu'n isel yn helynt
 Y byw gwan fal y bu gynt,
 Yn nydd aball a thrallawd
 Meddai galon a bron brawd;
 Cyn ei ddyfod i nôd noeth
 Y gofid sydd o gyfoeth;
 Cyn i wagder balchder byd,
 Wr hyddawn, ei gyrhaeddyd,
 Pan ddaeth golud fal hudawl,
 Druan o ddyn, i'w droi'n ddiawl,
 Hywel wiwdeg, hael ydoedd,
 Elai'r gân a'i iawl ar g'oeedd.
 I wan heb arian lle bai
 Yn rhwydd ei swllt a roddai;
 Ychydig o'i fychodedd
 Dir ei gael yn hael mewn hedd;
 Cymydog serchog i'w swydd,
 Mab diwegi 'mhob digwydd;
 A cheidwad heddwch ydoedd,
 Heddgar iawn, a hawddgar oedd;
 Wylai pan welai alaeth
 Colyn gwae mewn calon gaeth,
 A'r man lle bai byddai'n bur
 Yn ceisiau gweini cysur;

Chwiliai waelod difrod du
Y dolur, i'w dawelu ;
A'i barod law, heb eiriach
O'i glwyf a wnai glaf yn iach ;
'E welawdd Hywel wiwlan
Dan ei gur lawer dyn gwan ;
Dan guli trueni trwch
A thrawsder byd a thristwch,
A Hywel yn angel nawdd
O'r adwyth a'i gwardawdd.
Yn ddwyfol i'r amddifad
Bu Hywel dawel yn dad,
Unai'n rhwydd, heb anian rhus,
Ynghwyn y weddw anghenus,
A'i chymorth heb guch amharch,
I bawb rhoddai Hywel barch ;
Os bychan, y gwan a gai
O'i fodd y maint a fyddai ;
Nid oedd am weniaeth na dim
O dawddiaith y truth diddim ;
Difalch oedd ef a dwyfawl
I'w gred, egored i'r gwawl ;
Un cydiaith a'r pwyll cadarn,
Yn addwyn, yn fwyn yn ei farn ;
Gwir oedd ei gais i'w llais llwyr,
A son oedd fyth am synwyr ;
Hoewed y gair am Hywel,
Dyn i'w bwyll yn dwyn y bel ;
Yn siarad yn anad neb
Iaith anian a doethineb.

Bendith hynod yw tlodi,
Mae'n eglur, i'n natur ni ;
O honaw tardd yn hynaws
Pob maes bêr, pob mwynder naws ;

Haelioni pur yw, fflur fflwch
 Hedd a geiriau hawddgarwch ;
 Ynni mad y serchiadau,
 A'r gwir, yn gawr clodfawr clau ;
 Trugaredd, amynedd mad,
 Ag eiriaeth y gwir gariad ;
 Y dofaiidd feddwl dwyfawl,
 A'r gred fo'n gweled y gwawl ;
 Dedwydd gynheddfau didwyll,
 A phen goleuber, a phwyll.

Hywel deg, wr hael a doeth,
 A gafas graff ar gyfoeth,
 Mae'n gyfaill gwych mewn gafael
 A phethau'r byd gwynfyd gwael ;
 Moddion hen gybydd, meddant,
 Ci sur, fu'n gur i gant,
 A fu'n gawr heb awr o baid,
 Yn blingo cefnau gweiniad ;
 A rhodiodd, Och o'r adyn !
 Lwybrau melldith, rhif gwllith glyn ;
 Och, Hywel ! Ein angel ni,
 Y mae gwall trwm o'i golli ;
 O geinfan parch a gwynfyd,
 Syrthiawdd i bwl serthedd byd ;
 Rheolwr mawr ei alwad
 Yw ef yn awr ar glawr gwlad,
 A gwenu'r byd, llwyddfyd llawn,
 Yn ei wyneb e'n uniawn ;
 A'i dyniad at fryd annoeth,
 A'i fâr, fel anwar, yn boeth ;
 Yn gwrthryn pob dyn, lle daw,
 I'w ludded a gais lwyddaw.
 Sorrawd, ag nid mwy siriawl
 Y gwalch, eto'n falch o'i fawl ;

Ar y wlad y mae'n oer lwyth,
 I'w nodi a phoen adwyth ;
 Rhwyfa'n benadur rhyfalch
 Anynad baun, a nâd balch ;
 Darfu'r tirion haelioni,
 Tarw yw'n awr i'n tir ni ;
 Gorthrechwr, gwasgwr y gwan,
 Un llwyr am ynnill arian ;
 Ni wyl, ynfyd gwael anferth,
 Fyth ddigon i'w galon gerth ;
 Rhydd i'r truan a'r gwan gur,
 A'u deliaw a dwrn dolur ;
 Cynhyfiad yw eu cneifiaw
 A'i wellaif, a'i laif, a'i law ;
 Os tlawd ei gardawd a gais,
 Och ! a'i wanllef achwynllais ;
 Gawria'n erch â gerwin iaith
 Y dwys amharch,—“ Dos ymaith !
 Trenga'n y llwyn, ti'r angall,
 Ffwrdd i'th blwyf, y dinwyf dall ;
 Ynte'th ran, o fuan pâr,
 Yw'th gyrchu'n fwrth i garchar.”
 Dyna iaith a gwaith y gwr,
 Gweini tres a gwŷn treisiwr ;
 Adyn glwth, mae'n dân gwlad,
 I ddeifio'r gwan amddifad ;
 Yn rhwyfaw mae'n dwyn rhyfel,
 Min hyl a dur man lle dêl.

Aeth Hywel yn uchelwr,
 Ag och ! anfwyned y gwr ;
 Nid heddgwr na moddgwr mwy,
 Ond un gwrdd yn dwyn gorddwy ;
 Och alaeth ; Och o'i weled
 Yn gryf yn erbyn ei gred !

Iolo Morganwg

Gweled ei fyned i'w fedd
 Yn awr 'rhyd llwybr anwiredd,
 Ag ef yn rhwyd ei gyfoeth
 Yn teithiaw rhyd y pyd poeth ;
 Rhag dyfais a chais y chwant,
 A golud a rhagelwant,
 Gwared fi, Iôn, dirion Dad !
 Amen, a chlyw 'nymuniad.

 TRIBAN MORGANWG.

Fi welais iâr yn hedfan,
 Fel scram i ben y scimbran ;
 A'r hwyaid bach yn cwyno'n drwm
 Mai oer a llwm yw Llysfam.

(Iolo Morganwg wrth edrych ar iâr
 yn gadael ei deoriaid ar lawr am
 y nos i ymdaro fel y gallont.)

 BAN UWCH DENNI.

Gwisg wen am Fan Uwch Denni—a welaf
 Dan niwl a goleuni ;
 Er oer yr aros eira arni,
 Gwrthrych i fardd—hardd a fydd.

WORDS PECULIAR TO BLAENAŪ
MORGANWG.

Berw.—A cataract; Berw Tâf, &c.

Bottwn.—A bog; hence Bottwnog.

Cefnen.—A down.

Clun.—A wood, a brake, a thicket,—*Clun coch*,
clun gwyn, *clun hir*, *clun rhedyn*, &c.

Corf.—A wood on the steep brink of a river.

Dyrglawdd.—A canal; dyrglawdd y felin, the watercourse of the mill.

Eirw or eirwy.—*Pl.*, eirwyau and eirwau, cascade, a waterfall.

Llannon.—The colt's foot.

Lluest.—A shepherd's hut, a collier's cabin.

Llwydraed.—Another name for the colt's foot.

Sangoed.—Quick sticks.

Scŵd, *pl.* scydau.—Waterfalls; *Scwd Gwladus*, *Scwd Einion Gam*, and a dozen more in the neighbourhood of Pontneddfechan.

Swfr.—Confused noise, a murmuring; *syfru*, to murmur, hence syfrdanu.

Ymdryboli, trybolog.—Tywydd trybolog, tempestuous weather; diwrnod trybolog, tempestuous day.

Mae'n amser trybolog i gwala.


(The times are very trying.) [I.M.]


GWYR CWM Y FELIN.

Sef oedd cymdeithas fechan er cyn cof, o leiaf yn Nhir Iarll, ag yn Nghwm y Felin (Arw) ym Mettws Tir Iarll y cyfaryddent fynychaf. Ag am hynny eu galw "Gwyr Cwm Felin." Yr oeddynt gan mwyaf yn brydyddion, ag yn cynnal yn eu plith hen ddefodau a choffadwriaethau Beirdd Tir Iarll, pa rai a fuant enwog dros oesoedd am eu gwybodau barddoniaidd. Yr oeddynt yn cadw crefydd ynglyn a gwybodau eu coffadwriaethau, a llawer o honynt yn Lolordiaid, ond nid pawb, ag yn yr oesoedd diweddaf, sef wedi bwrw ymaith ofergoelion Eglwys Rhufain, y Dwyfundodiaid cyntaf yn eu plith i gôf a gwybodaeth. Cadwyd Trefnau'r Abred yn eu plith, a'u cynnal er y dechreuad.

Yn amser Einiawn ab Collwyn, meddant, y trefnwyd eu cadair gyntaf, gan ei rhoddi yn orsawel yn Nhir Iarll, lle ei cefnogwyd wedi hynny gan y brenin Edward yr Ail; ag wedi Eisteddfod Caerfyrddin dadlyminwyd Cadair Tir Iarll, er ymwared rhag anghof hen ddosparthau a gwybodau a threfnau Beirdd Morganwg a Beirdd Ynys Prydain fal y buont gynt.

Llysenw a roddwyd gan bobl anwybodus yw "Gwyr Cwmfelin." Yr enwau a gymerai'r Gymdeithas idd ei hunan oedd Beirdd Ynys Prydain, Beirdd Morganwg, a Beirdd Tir Iarll; a chyn belled ag y gellir cael ar eu coffadwriaeth ysgrifenedig a thraddodiadol y maent wedi cadw a chynnal hyd y dydd heddyw hen dderwyddiaeth a barddas prif feirdd cenedl y Cymry ag Ynys Prydain. A chadarnhad rhyfedd ar a ddywedant yw hyn, sef heb wybod a deall eu gwybodau a'u





CIPOLWG AR GWRT TREFFLEMIN.

Un o'r hen ffermdai harddaf a mwyaf henafol ym Mro Morganwg heddyw. Gwelir sticyl yn arwain o'r eglwys trwy'r llynwent i'r Cwrt.

dosparthau, a'u credoriaethau hwy, nis gellir deall llawer iawn o bethau hynod yn ngwaith yr hen feirdd, sef Taliesin ag eraill o oes i oes hyd yn ddiweddar iawn. Y mae yn ddiamau bod llawer iawn o wirionedd yn eu coffadwriaethau a'u hegwyddorion, a'u cyfarwyddyd. Nid oes dim yn fwy amlwg i bawb a chwiliant ag a fedront iaith yr hen feirdd, mae'n alledig iawn eu bod wedi cadw cof ag addysg lled gyflawn ar y pethau hyn; ag mewn golau arall, galledig iawn oedd iddynt eu cynnull yn o ddigamsynied o'r hen ysgrifau, o ba rai yr oedd llawer mwy mewn bod ynghylch tri neu bedwar cant o flynyddau yn ol nag y sydd y dydd heddyw gennym. Ag eto, y mae twysged fyth mewn bod o'r cyfryw yn ein plith ni, o ba rai y gellir casglu yn lled gywir y rhan fwyaf o'r hen bethau sydd dan hyn o amwyll. Yr oedd hefyd hynny o amser yn ol, wrth bob tebyg, lawer mwy o gof traddodiad ar lafar gwlad, neu o leiaf ar lafar beirdd, neu lafar cadair a gorsedd, nag a geir yn awr yn gyffredin. Felly gan ddwyn ar ystyr hyn oll o gymwyll, hawdd inni gredu bod mwy o wir nag o gamsynied yng nghyfarwyddyd (fal ei gelwir) a llafar Gorsedd a Chadair Beirdd Tir Iarll, neu, fal ei llysenwir, "Gwyr Cwm Felin."

Yr oedd cyfathrach neilltuol rhwng y beirdd hyn a'r Gwrthneiddiaid ym Morgannwg. Ym mhlith y rhai hynny mae yn agos y cwbl o'r beirdd ym Morgannwg a fedrent yr hen gelfyddyd hyd fyth. Gwrthneiddiaid oedd Rhys Morgan, Pen Craig Nedd; Morgan Llywelyn o Castell-nedd; Dafydd Nicolas o Aberpergwm; Lewis Hopcin, Hendre Ifan Goch; Dafydd Hopcin o'r

Coety ; Siams Sion o Aberdar ; ag Edwart Efan, ag amryw eraill. Hefyd Sion Bradffwrdd, Benjamin Dafydd o Aber Cwm y Fuwch ; William Dafydd o Aber Cwm y Fuwch, Siencyn Morgan o Ben Rhiw Fer, &c., &c. A'r dydd heddyw, Rhys Ifan o Aberdar, William Moses, William Walters, ag eraill.

Ag yn Eglwys Loegr, nid hawdd enwi llawer, os neb, heblaw Dafydd o'r Nant, o fewn y deucan mlynedd diweddaſ ; ag yn wir dywedir am hwnnw iddo fod yn bregethwr neu'n athraw ymhlith y Gwrthneidyddion rhyw dwysged o amser cyn ei urddo yn offeiriad Eglwys Loegr. Gellir yn wir feddwl fod Edward Dafydd o Fargam, hefyd, yn un o wyr Eglwys Loegr ; ag er amser Dafydd ab Gwilym, neu Iyth yn ebrwyddach, gwelir amrafaelion o bethau ymhlith Beirdd Morganwg, neu gan rai o honynt yn gwrthwynebu Eglwys Rhufain ; ymhlith y rhai gellir coffa Twm ab Ifan ab Rhys, Thomas Llywelyn o'r Rhegos, Iorwerth Fynglwyd, ag eraill.

Yr oedd Dafydd ab Gwilym lawer o'i amser yn byw ymhlith canlynwyr Walter Brute, Syr Sion Old Castle, ag ar ei ol ef Sion Cent, Lolardiaid. Cyfaddef pob un o honynt felly. Eraill cyfoed ag hwynt, ag ar eu hol.

Gorsawel Tir Iarll, a gorsawel Beirdd Tir Iarll, y gelwid trefn y beirdd hynny weithiau, oddi wrth y gair *gorsaw*, sef sefydledigaeth, neu sawedigaeth ; neu fal y gellir yn ddigon cyfiawn ddywedyd *sawel*. Dywedir iddynt ddechreu "Ymsawelu" yno yn amser Einion ab Collwyn, dan nawdd ei arglwyddiaeth ef. A chwedi hynny caffael nawdd pen arlwydd Morganwg, yn

enwedig y Clariaid, hyd o ddeucant neu dri chan mlynedd yn ol. Mae iaith Tir Iarll yn hynod o ran ei phurdeb. Un ydoedd awenyddiaeth o Dir Iarll "Lle mae da'r iaith," medd hen fardd yn marwnad Risiart Iorwerth; ag nid gwell Cymraeg yn un rhan o Gymru nag y mae fyth hyd heddyw yn Nhir Iarll, os cystal, ag nid amlach yn un man awen brydyddiaeth.

MESUR ARWEST.

MESUR ARWEST y galwai'r hen awduron y cyfryw fesurau; a mesurau Cerdd Arwest yw'r un a genir ar accen gyttrefn a chyd-bwys y bannau cyfateb ymhob pennill, er cyd gyfateb pob un o honynt i'r gainc; am hynny Cerdd Gainc y gelwir yn fynych. Ag nid rhaid gorchestion cynganedd ar y cyfryw gerdd, gwell gadael y blaen yn rhydd i synwyr anianawl a myfyrdod afaethus ag ymadroddion serchogion, sef gwell diddanwch na gorchest ar Gerdd Arwest a Cherdd Deuluaidd, a phrif orchest caniadaeth y cyfryw gerdd yw corfannau cywirgaint a llethrogion, a'u cadw yn gyd gyfateb a'r holl bennillion, fal y bo hawdd gwisgo'r gainc am danynt. Goreu datgan Cerdd Dafod orchestol heb gainc, fal na thwyller y cynganeddau, sef arnynt yn benaf, melusder a gosteg y ganiadaeth.

BARD D RHYDDID.

Yn adeg y chwildroad cyntaf yn Ffrainc cafodd y chwildroad hwnnw ddylanwad mawr ar feddyliau llawer o'r bobl Brydeinig; yn eu plith yr oedd Robert Burns, Hazlit, Paine, Iolo Morganwg, Thomas Efan (T. Glyn Cothi), ag eraill oedd yn byw yn niwedd y ddeunawfed ganrif. Gwelent Haul Cyfiawnder yn cyfodi i'r byd, a dydd Rhyddid yn gwawrio ar Ynys Prydain Fawr. Yr oedd Iolo Morganwg yn adnabyddus â Tom Paine, ag yn cydweled ag ef yn ei ddaliadau gwleidyddol, ond yr oedd Bardd Morganwg ymhell iawn o gefnogi ei olygiadau anffyddol. Adnabyddid Iolo gan ei gyfeillion yn Llundain fel "Bardd Rhyddid," o herwydd iddo arwyddo ei enw felly yn llyfr ymwelwyr â Charchar Newgate tra yn ymweled â chyfaill iddo o'r enw Winterbotham, oedd wedi ei garcharu am ei waith yn pregethu pregeth wleidyddol, a dywedyd pa fodd y dylai brenhinoedd deyrnasu a barnwyr weinyddu cyfiawnder. Tynnodd yr enw "Edward Williams, *Bard of Liberty*," sylw un o'r uchel swyddogion, a gorchymynwyd i'r porthor i'w nodi pan ddeuai yno drachefn. Nid hir y bu Iolo cyn talu ei ail ymweliad, a buan yr adwaenwyd ef fel awdwr yr ysgrifen amheus. Ebe y swyddog wrtho,— "Chwychwi yw 'Bardd Rhyddid,' onide?" "Ie'n siwr, syr," ebe Iolo. "Gan hynny, Mr. Bardd Rhyddid, yr ydych i ddeall," ebe y swyddog, "mai yr unig ryddid a ganiateir i chwi yma yw rhyddid i gymeryd eich hun ymaith ar hyd yr un ffordd ag y daethoch." "Purion," ebe Iolo, "ag mi ddymunwn na chaffo un bardd rhyddid byth waeth triniaeth na chael

gorchymyn i fyned allan o garchardy." Wedi myned adref cyfansoddodd Iolo y gân ganlynol i Kirby, ceidwad carchardy Newgate, a galwodd y gân "The Newgate Stanzas." Anfonwyd y gân y dydd y derbyniwyd hi gan Kirby i'r newydd-iaduron Saesneg, a chafodd gylchrediad mawr.

THE NEWGATE STANZAS.

DEAR Liberty! Thy sacred name
 O let me to the world proclaim,
 Thy dauntless ardour sing;
 Known as thy son, nor knaves of State
 Nor spies I fear, nor placeman's hate
 Nor mobs of Church and King.

No jail I dread, no venal court,
 And where belorded fools resort,
 I scare them with a frown:
 John Reeves and all his gang defeat,
 And if a tyrant King I meet,
 Clench fist and knock him down.

Of late, as at the close of day,
 To Newgate cells I bent my way,
 Where truth is held in thrall;
 It was to scorn a tyrant's claim,
 Wrote "Bard of Liberty" my name,
 And terror seized them all.

Poor Kirby trembled, struck with fear,
 A form uncouth like shaggy bear,
 On Russia's frozen plain;
 Nor would he for one moment's space
 The Bard of Liberty's bold race
 Within the walls detain.

Of such queer phiz and idiot mien
 No stupid ass was ever seen,
 Whilst oddly muttered he,—
 “Dangers immense to Church and State,
 We dare not trust within the gate
 A Bard of Liberty.”

Should I be doomed o'er burning sands
 To traverse Afric's desert strands,
 Where hungry tigers war;
 Then, Liberty, shalt thou the muse
 Bless with thy soft refreshing dews,
 Thee that the world adore.

Or am I to the pole exiled
 To gloom where Nature never smiled,
 Since earth and heaven began;
 Warmed by thy flame, bright Liberty,
 With fervent soul I'll sing to thee,
 And sing “The Rights of Man.”

BREINIAU DYN.

Cyfansoddwyd y gân hon yn y flwyddyn 1789, yng Ngorsedd yr Alban Eilir, ag ysgrifenawd hi gan y bardd â llaw grynedig iawn y chweched forau o'r ail leuad gwedi'r Alban Eilir, cyn codi haul.

DYRCHA dy lais, a son
 A'th gerdd yn felus dôn,
 Ac wrthi glôn;
 Bydd cân dy lafar lef
 Fel swn taranau'r nef,
 Nes deffro'r byd â'th lef,
 Am freiniau dyn.

Rhyddid y sydd yn awr,
Fel llew rhuadwy mawr,
Pob tir a'i clyw;
A'r gwir sydd ar ei daith,
Dros yr holl ddaear faith,
Yn seinio peraidd iaith
I ddynol ryw.

Pwyll a chyfiawnder sydd
Yn gweled gwawr y dydd
Yn torri'n hardd;
Ffoi mae'r cymylau'n wir,
Mae'r nos yn gado'r tir,
O'r dwyrain cyn bo hir
Haul haf a dardd.

Gorthrymwyr yr holl fyd
Sy'n curo'u gliniau 'nghyd,
Mawr yw eu cryn;
Fel angau'n brathu'r ais
I wisgwyr coron trais
Yw clywed haner llais
Am freiniau dyn.

Hir buont tan yr iau,
Pob calon yn llesghau,
Pob braich yn wan;
Ond cynnull nerth mae'n hawl.
Y ffordd y rhodia'r gwawl,
O canwn iddo fawl,
Mae Duw o'n rhan.

Yn nhir caethiwed blin,
A'r iau'n ein clwyfo'n flin,
Bu gwael ein byd;
Cael yno'n cneifio'n llwm,
Baich mawr a bwysai'n drwm,

Iolo Morganwg

Fel mynydd mawr o blwm,
 I'n llethu'n nghyd.

Mae'r cwyn am beth sydd waeth,
 Cydwybod sydd yn gaeth,
 Tra gresyn yw ;
 Marchoga'r ddraig yn rhydd,
 A deddf ei llid a ludd ;
 Ni chawn ond yn y cudd
 Iawn enw Duw.

Ond dydd sy'n agoshau,
 Dydd hyfryd i'n rhyddhau
 O'n poen a'n braw ;
 Dydd megis ffwrn o dân
 A ddifa'r drwg yn lân,
 Dyrchafwn bawb y gân,
 Y mae ger llaw.

Er maint ffyrnigrwydd mawr
 Y rhai sydd draws yn awr,
 Cant synwyr pryn,
 Dan bwys digofaint byd,
 Hwyr syrthiant oll ynghyd,
 Am iddynt sarnu cyd
 Ar freiniau dyn.

Clyw'r brenin balch diras,
 A thi'r offeiriad bras,
 Dau ddiawl ynglŷn ,
 Hir buoch fal dau gawr
 I'r byd yn felltith fawr,
 Yn sarnu'n llaid y llawr
 Holl freiniau dyn.

Anrheithio'r byd a lladd
 Eich brodyr o bob gradd
 Fu'ch gwynfyd oll ;

Cyfiawnder trwy'r sarhad
Ymguddia rhag eich brad,
Cyfrifid e'n mhob gwlad
Fel peth ar goll.

Lle ba'ech gwynebaw pres,
Gwir grefydd nid oedd nes
O godi llef;
Llu'n tywallt gwaed y gwan,
Baich rhyfel ymhob man,
Caed uffern fawr ei rhan,
A'i byddin gref.

Lle traetha cyfraith hedd,
Danfonsoch yno'r cledd
Mewn eithaf brys;
Pan losgech fawr a mân
Mewn dinas fawr ar dân,
Gorfoledd fyddai'ch cân,
Mewn llan a llys.

Ond llais o'r nef sy'n awr
Yn deffro'r ddaear fawr,
Gan draethu'r gwir;
Angel goleuni sydd
Yn tywallt nefol ddydd,
Cawn ynddo rodio'n rhydd,
Cawn, cyn bo hir.

Dros holl ardaloedd cred
Mae cyffro mawr ar led,
Fel daear grŷn;
Yn llorio'r hil ddi-hedd,
A'u rhoddi'n fwyd i'r cledd,
Am gladdu fel mewn bedd
Holl freiniau dyn.

Er cyd bu pawb yn ddall
 Tan ormes plant y fall,
 Fel seirff ynglŷn;
 Ni ddown o'r llaid i'r lan,
 Mae'r gwir, mae'r Nef o'n rhan,
 Sefydlwn ym mhob man
 Holl freiniau dyn.

O pam, frenhinoedd byd,
 Y malwch ewyn cyd
 Mewn poethder gwŷn?
 Clywch orfoleddus gâinc,
 Mae'r gwledydd oll fel Ffrainc
 Yn rhoddi'r orsedd fainc
 I freiniau dyn.

Gorfoledd, cwyd dy lais,
 Cwmp holl deyrnasoedd trais,
 Maent ar eu crŷn;
 Cawn deyrnas hardd ei gwedd
 Tan farn Tywysog Hedd,
 Yn hoenus cawn o'r bedd
 Holl freiniau dyn.

Nid yw y gân uchod yn cyfeirio at un wlad na swyddogion neilltuol; canys nid yw rhediad y cyfansoddiad at neb ond trawsiôn a gormeswyr digydwibod, byddent o'r wlad neu y genedl bynnag ag y byddont; ag ni pherthyna y fflangell uchod i neb ond y sawl ag sydd yn ymddifad o deimladau dyngarol o barth, ag at eu cydhanfodau dynol; gan hynny tybiwyf na feia un dyn gwladgarol wrthyf, am fflangellu mewn cân ddiniwed y cyfrai nodweddau ellyllol, y rhai na ddylent hanfodi ymhlith trigolion y ddaear.

GWAWR BORAU RHYDDID.

MAE gwawr
 Dydd ein rhyddhad yn deffro'n awr,
 Disgleirdeb y gwirionedd mawr ;
 O gwel y borau'n deg ei dardd,
 Mae'n gwenu ar hyd y bryniau draw ;
 Mae'r haul gerllaw a'i dywyn hardd.

Ti sydd,
 Gan fod tymhestlau'n dechreu'r dydd,
 Mewn ofnau'n ffoi, rhy wan dy ffydd,
 Na saif yn ol ! Ond dere'n nes,
 Cei weled haf yn agos iawn,
 A'i wynfyd llawn, a'i dawel dês.

Mae'r gwir,
 Ar ol marwoldeb gauaf hir,
 A'i hadau hardd ar hyd y tir,
 Fel Eden gu'n golygu'n lân ;
 O bydded llais trigolion byd
 Yn fawl i gyd â nefol gân.

Iôr Nef !
 Bydd E'n Waredwr â'i law gref,
 A than ein llwyth fe wrendy'n llef ;
 Fe rwyma'r traws, fe dyrr ei gledd,
 Mae'n Geidwad nerthol i'n rhyddhau,
 Yn agoshau â neges hedd.

Er cyd
 Yw braich gorthrymder yn y byd,
 A rhwysg anwiredd gwael ei fryd,
 Maent ar eu cych i ddyfnder coll,
 Fel nos yn ddiâu o flaen gwawl,
 O flaen ein tawl diflanant oll.

Pob twyn

Sy'n clywed llais y ddurtur fwyn,

Mae cân llawenydd ym mhob llwyn :

O cwyd dy galon, ti sydd wan,

Er draig a'i sorr, a'r drwg y sydd,

I'n dwyn yn rhydd, MAE DUW O'N RHAN.

Ti'n Duw

Ior a fedd oll, mawr rhyfedd yw,

Dy ddoniawl rad i ddynol ryw ;

Rhoddaist i ni'r Goleuni glwys,

O eigion rhwym a'n dwg yn rhydd,

I olau'r dydd o alar dwys.

IOLo MORGANNWG A'R GAETHFASNACH.

Dywed Thomas Stephens o Ferthyr mai yn ei wrthwynebiad i'r gaethfasnach y mae cyfansoddiad moesol Iolo Morgannwg yn disgleirio yn ei holl berffeithrwydd. Yr oedd iddo dri o frodyr, y rhai a aethant allan eill tri i'r India Orllewinol, a buont yn llwyddiannus i gasglu cyfoeth mawr. A chan eu bod yn gwybod am dueddiadau llenyddol Iolo, cynhygiasant anfon iddo hanner cant o bunnau yn flynyddol er gwneud ei gyflwr bydol yn ddibryder iddo. Ond wedi dwys ystyried y cynhygiad penderfynodd wrthod. Yr oedd ei frodyr yn ennill eu cyfoeth yng ngwlad y caethion, a gwyddai mai drwy y gaethfasnach yr oeddynt wedi dyfod yn gyfoethog; a'i ateb penderfynol oedd,—“Na wna! ni chyffyrddaf â'u harian hwynt, gwerth gwaed ydynt, gwerth genedigaeth fraint dynolryw. Mi a fyddaf farw o newyn yn hytrach na chymeryd fy nghynnal gan ffrwyth llygredig yr adgas gaethfasnach.” Ymhen blynnyddoedd wedi

hyn bu ei dri brawd farw, a daeth eu meddiannau oll, rhyw driugain mil o bunau, wrth etifeddiaeth yn eiddo iddo. Annogwyd ef gan ei gyfeillion i fyned trosodd i Jamaica a sicrhau'r cyfoeth i'w deulu. Ond ni wnaï hynny ychwaith; aethai i Jamaica, rhyddhäai y caethion, a rhannai y meddiant rhyngddynt, ond ni chymerai ddim iddo ei hun. Nid oedd a wnelai o gwbl â chyfoeth o'r fath; ag ni chefai yr arian gwaedlyd trwy ei gydsyniad ef fyth lygru cydwybodau un o'i deulu. Yr oedd ei gariad at Wilberforce, a'i gashad o'r gaethfasnach, wedi cael lle dwfn iawn yn ei galon; ag yn rhif y tanysgrifwyr i'w *Lyric Poems*, dwy gyfrol o'i farddoniaeth Saesneg, a gyhoeddwyd yn 1794, enwir y dyngarwr hwnnw yn "Wilberforce Dynoliaeth" ("Humanity Wilberforce").

CAN YN ERBYN CAETHFASNACH.

Yn y flwyddyn 1804 hwyliodd llynges o ddeugain o longau allan o Lundain a phorthiaidd-oedd eraill yn Lloegr ar fordwy tua Gini, ag oddiyno i Ynysoedd y Gorllewin. Y son oedd eu bod yn bwriadu dwyn ugain mil o drueiniaid Affrica yn gaeth lafurwyr i Ynysoedd y West Indies, a hynny gyda'r brys mwyaf, rhag ofn y buasai'r Senedd cyn pen nemawr yn gwahardd y cyfryw fasnach uffernol. Pan oedd y llynges hon ar oror Ysbaen, goddiweddwyd hi gan y gwynt mwyaf tymhestlog a welwyd ag a brofwyd nemawr erioed, a chyda hynny mellt a tharanau o'r mwyaf dychrynlyd, a môr chwyddedig a chynddeiriogwyllt. Drylliwyd pob un o'r llongau, a chollwyd yn agos pob un o'r dwylaw. Wedi

darllen hanes y llongddrylliad ofnadwy, ni allodd
y bardd lai na chyfansoddi y gân a
ganlyn "Er moliant i Dduw am y cyfryw ym-
weliad gogoneddus."

A OEDD llynges gadarn ar y môr,
A brys diodor arni ;

Cyrch tiroedd Affrig oedd ei thaith,
Hyd wyneb maith y weilgi.

Masnachwyr y fordwyaeth hon,
Masnachwyr dynion oeddynt ;
Gwyniau'r goludgais rif y ser,
Gwŷn pob creulonder ganddynt.

Lladrata dynion ! Hyll eu swydd,
Daeth arnynt aflwydd cyflawn ;
Duw'n rhoddi llawer mil yn rhydd,
O law'r gorthrymydd creulawn.

Ti sy'n y Nef yn gweled oll,
Dyfnideroedd coll agoraist ;
A'r llu nad ofnent lwnc y donn,
Yn fwyd i hon y rhoddaist.

Gan atal cyrch y llynges hon,
Rhoest ddwrn dialon arnynt,
A rhyddhau'r gwynt o dorr dy law,
Dy fellt yn treiddiau trwyddynt.

Rhoi'r gair, ag awdurdodi'r môr
I agor ei drysorau ;
Cynhullaist holl fyrddiynau'r donn,
Llu'r eigion am y llongau.

Yr hwyliau'n 'sclafath gan bob gwynt,
Gwledd ydynt i'r tymhestloedd ;
Yn chwifio'r holl gadernid maith,
Ar ymdaith i'r dyfnideroedd.

Llu'r lladron cyflog—ble mae nhwy?
 Ni wyddys fwy am danynt!
 Dyfnderau'r weilgi'n isel iawn,
 Y lleoedd cyfiawn iddynt.

'Rhoed nerth y tonnau'n ffrwd y gân,
 Drwy'r bydoedd allan rheded
 Gorfoledd yn un enaid byw,
 Yn fawl i Dduw'r ymwarded.

Tewi mae'r gwyntoedd mawr eu bloedd,
 Mae'r moroedd yn tawelu;
 Mae'r gân yn bwrw ei ffrwd yn awr,
 Duw'r Nerth, i'th fawr foliannu.

Bloeddgenwch, feibion Affrig boeth,
 Mae'r Unig Ddoeth yn gweled;
 Tyrr Duw'r Cyfiawnder ym mhob tir
 Gadwynau'ch hir gaethiwed.

Llef gwae'r gorthrymwyr, hyll ei swm!
 Ail udlais cwn yn gwaeddi;
 Y caethion gan Dduw'r Nef yn awr,
 Yn nawdd ei fawr ddaioni.

Daw dydd eu gwaredigaeth lawn,
 Dydd agos iawn ar ddyfod;
 Er moli gwaith ei gyfnod Ef,
 Caniadau'r Nef yn barod.

Cyhoeddodd y bardd y gân uchod yn *Seren Gomer* (Cyf. I., 1818-1819), gyda'r nodiad a ganlyn:—

“Ar fyrr, wedi llwyr ddinystr y llongau, sef y llynges uffernawl, distawodd y gwyntoedd, dychwelodd y demhestl yn ol i law'r Anfeidrol

mawr a'i gosododd ar waith ei gyfiawnder yn y cyfryw fodd rhyfeddol. Ymadawodd y môr, dychwelodd gwenau haf a hinon i'r wybren, ag yn ngeiriau yr hen fardd godudog Myrddin ap Madawg Morfryn:—

“Caintor cynr elwch cathl heddwch a hinon,
hynny yw:

“Canodd cynr gorfoledd gân heddwch a hinon.”


CAN RHYDDHAD Y CAETHION.*

Sef mawl i Dduw am dorri seiliau caethiwed, drwy gynhyrfu Senedd Ynys Prydain i wahardd masnach cyrff ag eneidiau dynion duon Affrig.

CORRED allan ein caniadau
Yn orfoledd ym mhob man;
Ffrydied allan o'n calonnau
Fawl i Dduw sy 'mhlaid y gwan;
Boed pob enaid byw'n ganiedydd
Drwy'r bodoldeb mawr yn grwn,
Gan bob tafod ganiad newydd;
Dydd llawenydd ydyw hwn.

Brodyr a chwiorydd inni,
Plant i'r un trugarog Dad;
Hir y buant mewn gresyni,
Dan orthrymder a sarhad;
Hir yn gruddfan mewn caethiwed,
Teimlo gormail o bob rhyw;
Hir dan draed yn flin eu tynged,
A than draed gelynyon Duw.

* Cyfansoddwyd y gân hon wedi i Mr. Wilberforce lwyddo i basio ei fesur i ryddhau y caethion drwy y ddau Dy yn y flwyddyn o oed Crist 1807.





MAEN BEDD O WAITH IOLO.

Cerfiodd lawer o goffadwriaethau mewn mynwentydd yn ystod ei oes.

Hir yng ngwledydd poethion Affrig
 Bu'n cydfrodyr dan yr iau ;
 Daeth yr amser gwynfydedig
 O law'r gelyn i'w rhyddhau ;
 Duw sy'n gweithio'n Ynys Prydain
 Drostynt o'i diriondeb rhad,
 Gwaith a'u cynnull dan ei adain,
 A'i diogela'n nhir eu gwlad.

Senedd Prydain o'i hanwiredd
 Sydd o'r diwedd yn deffroi,
 Ag o'i chadarn amryfusedd
 I gyfiawnder yn ymroi ;
 Gyda Duw'n gweithredu'n dirion,
 Gyda Duw'n rhoi clust i'r gwan,
 Torrodd sail caethiwed creulon,
 Boed gorfoledd ym mhob man.

Balchder cadarn, golud bydol,
 Prif elynion Duw a dyn,
 Ymgreulonant yn angerddol,
 Duw fo'n gwared rhag eu gwŷn ;
 Prydain, a fu gadarn unwaith
 Yn eu plaid, a'i chledd yn llym,
 Bellach mae'n ffeiddio'r anrhaith,
 Ag yn dryllio sail ei grym.

Masnach dyn ! Ei gorff a'i enaid
 Meibion trachwant mwy ni chânt ;
 Cyn bo hir dan ddial tanbaid
 O bob tir diflannu wnant ;
 Dydd i agor drws pob carchar,
 Dryllio'r gadwyn, torri'r iau,
 Dydd i sychu dagrau galar,
 Dydd ein Duw sy'n ymneschau.

Hir amcanwyd cadw'n ddeillion
 Hiloedd Affrig ym mhob gwlad ;
 Ond agorir eu golygon
 Gan eu Duw a gânt yn Dad ;
 Ffoi mae'r nos, fe ddaw'r goleuni
 A'i fendithion ym mhob rhith ;
 Gwelir, fal o'r nef yn torri,
 Gwawr Gwirionedd yn ein plith.

Cyfyd bellach Haul Cyfiawnder
 Lle bu'r tywyll nos yn hir ;
 Tês Tangnefedd o'r uchelder
 A dywyna drwy bob tir ;
 Cerddi'r gwanwyn sy'n mhob ardal
 Yn cyhoeddi'r hyfryd haf ;
 Clod, gogoniant, mawl diatal
 Iddo fyth, y Nefol Naf.

Gyda disglaer gôr y Nefoedd
 Boed i ninnau ddwyn ein rhan ;
 Cân sy'n rhedeg drwy'r holl fydoedd,
 Bloedd gorfoledd ym mhob man ;
 Gwelwn ddryllio sail caethiwed,
 Awr i ollwng caeth yn rhydd,
 Mawr fu'n hiraeth am ei weled,
 Mawl i'n Duw, fe ddaeth y dydd!

YR UN CEINMYGED.

DAN droes ein Duw ei glust yn dirion:
 I wrando cwyn caethiwed blin,
 Bu'n fawr orfoledd i bob calon,
 Daeth cân llawenydd i bob min ;
 Caethiwed meibion gwledydd Affrig,
 Eu gruddfan dan greulondeb hir ;

Duw'r Nef a'u barn, Duw bendigedig,
Mae'n awr a'i nerth ym mhlaid y gwir.

Dan erchyll drais anrheithwyr gwynion,
A'u llusgai'n gaeth o dir eu gwlad,
Bu'n brodyr a'n chwiorydd duon
Yn ochi'n drwm dan bob sarhad;
Oddiwrth anwyliaid eu calonnau
I wledydd pell yn cael eu dwyn,
I ruddfan yn y tynn gadwynau,
Heb un i wrando gair o'u cwyn.

Mae trachwant certh, a rhyfyg balchder,
Yn hyn o fyd am gael eu nef,
Heb gofio sill am Dduw'r Cyfiawnder,
Na dim o'i gyfraith nefol Ef;
Eu gwynfyd mawr yw cael trueiniaid,
Ag am eu gyddfau ddodi'r iau,
Eu trwm lafurio, fal 'nifeiliaid,
Hyn yn ddiorffen i barhau.

Aeth cwyn y caethion drwy'r holl fydoedd,
Drwy'r oll ar glyw'n ochenaid gref;
Aeth hyd yng Ngorsedd fawr y Nefoedd,
At Dduw'n ei farn a'i dygwyd ef;
Aeth allan y gorchymyn dwyfol:
"Dychwelir eu caethiwed hwy,
Eu treiswyr boent golledig hollol,
Heb fyth o'm blaen eu henwi mwy."

Fe glywodd Senedd Ynys Prydain
Iôr mawr y Nef yn hyn o'i farn,
Rhoes glust i lef y caethion druain,
Dan draed gorthrymder yn un sarn;
Gan droi o lwybrau anghyfiawnder,
A Duw'n eu nerthu'n hyn o'u gwaith

Cadwynodd drachwant a chreulonder ;
 Boed bloedd gorfoledd gan bob iaith.

Ardaloedd Affrig ! Boed caniadau
 Yn ffrydio drwy'ch terfynau chwi ;
 Mawl yn llifeiriant o bob genau,
 Am gyfiawn farn y nefol Ri ;
 Mae Duw'n dychwelyd eich caethiwed,
 A'i fendith arnoch fal y gwllith,
 Gair mawr ei Deyrnas, cewch ei glywed,
 A'i gysur nefol yn eich plith.

Neshau mae'ch cyflawn waredigaeth,
 Mae'r dydd gwynfydig yn ei wawr,
 Fe gyfyd haul eich iachawdwriaeth,
 Fe gyfyd ei oleuni mawr ;
 Gwybodaeth a'i disgleirdeb hyfryd,
 Daw, megis ffrwd, o byrth y Nef,
 Boed fyth y gân i Bôr y Bywyd,
 Yn fawl i'w nerth a'i gariad Ef.

DYMUNIAD Y BARDD.

SAEL Awen i'm llen a'm llais,—yn addysg
 I 'nyddiau ddymunais;
 Am amgen nid yw'm ymgais
 Na, hon i'm cân,—hyn yw'm cais.
 Adeg werdd y Gerdd, ag irddysg—hafaidd,
 Mehefin goleuddysg;
 Hion Hedd yn darwedd dysg,
 I dramwy ffyrdd di drymysg.

BEDDARGRAFF LILI FACH.*

SYN i bechod lygru'th galon,
 Cyn profi'r byd a'i holl ofalon,
 Gwell Tad a'th ddug o bob trueni
 O'i gariad mawr i fro goleuni:
 Gwell Tad na'r hwn sydd ar y ddaear,
 Ar d'ol yn wylo'n fawr ei alar,
 Heb obaith diwedd i'w alarnad
 Ond yn yr awr ei symud atad.

I'R EHEDYDD.

SEDYDD yn brydydd bwriadawl,—a gyrch
 A gorchest blygeiniawl,
 I weini'n bur awenawl
 Gynnar ei gerdd gân o fawl.

* Ei eneth fechan naw oed.

TRYSORFA GWYBODAETH.*

FONEDDIGION,

Mawr oedd fy llawenydd weled eich cynnigiadau chwi i gyhoeddi'r *Trysorfa*, o herwydd y bydd ef yn achlysur o gynnyddiad gwybodaeth ymhlith y Cymry; ag y mae'n ddir y rhydd ef lawer o ddywenydd i bawb ag sydd yn caru'r hen iaith Gymraeg. Yr wyf yn gobeithio y cewch chwi annogaeth i ddwyn eich gwaith yn y blaen hyd eithaf eich dymuniad. Mi a ddanfonais i chwi ddeuddeg englyn unodl union, ag os ydych chi yn tybied y byddant yn gymeradwy gyda'ch darllenyddion, chwi ellwch eu cyhoeddi hwyt.

Oddiw'rth eich ewyllysiwr da,

Trefflemin,

IORWERTH GWILYM.

Chwef. y 25, 1770.†

DOS, bepryn, hydyn hedeg—yn siriol

Drwy radol dro riwdeg;

Ag estyn gân o gysteg

I law fy Ngwenn‡ dirfwen deg.

Dwg ymgais adlais f' odlau,—achwynnaidd

Tres frwynnaidd, tros fryniau,

At liw'r huan glodfan glau,

F' anwyl-wen wiw-fwyn olau.

* Deuddeg englyn unodl union, at Gyhoeddwy'r "Trysorfa Gwybodaeth," y cyhoeddiad cyfnodol cyntaf a gyhoeddwyd yn Gymraeg.

† Nid oedd Iolo uwchlaw tair-ar-ugain oed pan gyfansoddodd yr englynion yma.

‡ Geilw y *Drysorfa* yn "Wenlodes dirfwen deg," ag yn "anwylwen wiw-fwyn olau," &c.

Trysorfa Gwybodaeth 63

Trwy fri arch iddi'n addfwyn—(Wen beraidd
Arafaidd oreufwyn ;
Un wiwfad), roddi'n aufwyn
Clust yn bur i'm cur a'm cwyn.

Fy nghalon wirion waraidd—am feinir
Wir hoywir wiw rhiaidd,
Sydd dan iau'r clwyfau clafaidd,
A thynder mal blyngder blaidd.

Am hon, 'r un dirion deraf,—'r un ddifan
Fwyn hoylan fanolaf ;
Yr eneth fad eirianaf,
Anfwyn glau, yr wyf yn glaf.

Wen hynod hyglod eglur,—yn ddifflais
Iawn hoffais yn wiwffur ;
Ochain yr wyf mewn echur
Am Wen hafaidd beraidd bur.

Mewn diffraith, hirfaith erfawr,—a thrafferth
Och ! Anferth a chwynfawr ;
Megis un di ymogawr,
Aele'r wyf am ddeuliw'r wawr.

Mewn haint heb hoywfraint hyfryd—nag
Iawn hynaws un ennyd, [hoywnaws
'Rwyf am Wenn ddienn ddiwyd,
Weddus wiw ei ffrw a'i phryd.

Pe cawn 'r un hyddawn hoywdda,—arafaidd
Angylaidd anghwla,
Aes orfad a chysurfa
Fyddai'r eneth ddifeth dda.

Trwy f'oes yn eirioes araf—fy mawrllles,
Hoff eres a phuraf,
Fyddai'm Gwen, lliw haulwen haf,
Ddaionus bur ddianaf.

Rhown heb frad gariad gwrol,—yn ddifeth
 I f' eneth hoyw fanol ;
 Y gwis eirian gwiw siriol,
 Difai da ni neidia'n ol.
 Caem fywyd hyfryd mewn hedd,—o'r odaf
 Aeserwaf ddi suredd ;
 Cyd tynnem mewn cytunedd
 (Mwynder byw) nes mynd i'r bedd.

DIARHEBION MEDDYGOL.

(O LYFR DEWI AB IAGO.)

Na ddiosg dy bais cyn y dyrchafael.

Os myni fynd yn glaf, golch dy ben a dos i
gysgu.Nid oes mewn cawl heb lysiau na daioni na
maeth.Os myni farw, bwyta gig myharren rhost, a
chwsg yn fuan ar ol ei fwyta.Os bwytei beth drwg, bwyta ysgyfarnog rhost,
a mwstard wedi bwyd.A gartho ei ddannedd â blaen ei gyllell, a all
eu carthu cyn bo hir â'r carn.

Udgorn angau, peswch sych.

ENGLYNION HYFFORDDIANT.

Englynion cyngor i wneuthur englyn yn flasu a diddan; agⁿ yn hardd a gloyw y syniadau, y meddyliau a'r mydryddiaeth, neu'r ganiadaeth; ag yn ddefnyddfawr ei addysg ar foesoldeb a rhinweddoldeb buchedd; ar ddymuniad mebyn ieuanc o Wynedd, yn y flwyddyn 1799.

MEBYN llawn grym hybwyll,—hen Awen
A'i neuad geleubwyll,

Cenaist i ofyn canwyll
I ochel tyb a choel twyll,

Rheol ddigonol hardd ganu,—englyn,

Rhag anglod i'r prydu;
Iawn addysg i weinyddu
Eirian gamp yr Awen gu.

Ar ffysg, gair addysg a roddaf,—yn rhwydd

Yn yr hyn a fedraf,
A'i draethu'n rhad i'r eithaf
Yn ol fy neall a wnafl.

Bydd gelfydd, gwybydd yn gall,—y mesur,

Ymosod i'w ddeall;
Nid yngan rhyw nád anghall,
Yn wr dwl, fal hanner dall.

Cynghanedd hywedd sy'n howi—englyn,

Mae'n anghlod bod hebddi;
I'w didwyll fodd o'i dodi,
Ar gân y bardd, hardd yw hi.

Bydded iawn gerdded, yn gain,—i'r llafar,

Er llifo'n felusgain;

* Mae Iolo Morganwg yn arfer *ag*, yn wastad, yn hytrach nag *ac*.

TAL. AB. IOLO

A geiriau'r iaith yn gywrain,
Yn wê serch, yn iawn eu sain.

Fel awel dawel min dydd,—cyllafar
A'r adar o goedydd ;
Ar led y cain wyrloodydd,
Rho'r gân ffraw i rodiaw'n rhydd.

I'r daran buan ei byllt,—a'i llifoedd,
Boed llafar echryswyllt ;
Gwyrddlais ffrawdfawr, a gawr gwyllt,
Sw'n rhaiadr, a sain rhywyllt.

Yn forau clyw gân firain—yr eos
A'i rywiawg ddolystain ;
Iawn iriaith hon i arwain
Awen dy serch i ferch fain.

Boed perffaith dy iaith, a'i dethol,—yn iawn,
Llawn enaid, a nerthol ;
Yn taraw'n dra naturiol,
Hoywber ei phwyll, heb air ffol.

Iaith hygar, foddgar, ufuddgall,—ri ryw
A fo rhwydd ei deall ;
Nod Awen, ynni diwall
Yw hawsder cain ystyr call.

Naws aerwyllt anystyriaeth,—daw allan,
A'i dwyllau llenyddiaeth ;
O bydew anwybodaeth,
Nid o iawn ffrawd Awen ffraeth.

Gwaith englyn, y dyn a doniau,—synwyr
Yn seinio drwy'r bannau ;
Addawaf iti'n ddiau
Ganu bob tafod glod yn glau.

- Tyb coeth, meddwl doeth, a dawn,—dienddysg,
 Dod ynddi'n fywydlawn ;
 A gwiwfarn awen gyfiawn,
 Drwy'th holl waith, a'r iaith yn iawn.
- Rheol, un ddethol, hen ddoethion,—a gawn
 Ar ganiad englynion ;
 O cais, ag ymbwyll cyson,
 Arail hynt y reol hon,—
- Dod bwyll, yn ddidwyll, i dd'wedyd,—ei wir,
 Yn dy waith goleufryd ;
 A llafar heb dwyll hefyd,
 Yn y gerdd, yn iawn i gyd.
- Dod len, ag awen gywair,—yn y gân,
 Gan ei gwau'n gerdd gadair ;
 Ias trynwyf, heb estronair,
 Dim ar wall, yn gall bob gair.
- Trwy'th gân boed anian a doniau—addysg,
 Rho iddynt y gorau ;
 Rho nawdd i bob rhinweddau,
 Ag i'w dilyn glŷn yn glau.
- Nwyf anian ar dân yw'r deunydd—gorau
 Ag iriaith bur gelfydd ;
 A'th glod yn teithio gwledydd
 Ar draed cawr, yn fawr a fydd.
- Serchog a bywiog dyb Awen—irddoeth,
 Sy'n harddwch disgywen ;
 A lliw myfyrdod llawen
 Yw nod didwyll pwyll mewn pen.
- Medru dyfalu'n fywlwys—a ddylit,
 Hardd eiliaw iaith gymmwys ;
 Ymarbod a thyb mawrbwys,
 Ymddal doeth, a meddwl dwys.

Cais arwedd rhinwedd er rhannu—addysg,

A'i wiwddoeth weinyddu ;

Yn foddus tangnefeddu

Yw iawn gamp yr Awen gu.

Bid iachus bywyd uchel,—y bergainc,

Yn burgoeth ei hawel ;

A dewrgais pwyll diargel

A dreiddia'n fwyn drwyddi'n fêl.

Eneidia'r holl gauadaeth—yn beraidd,

A bwriad uchelfaith ;

Berw eirian mwyn beroriaeth,

Ynniau ffraw Awen ffraeth.

Gwna'th englyn fal hyn, cai fawl hardd—i'th gân

A'th geinwaith awendardd ;

O degwech ymbwyll digardd,

Unwn fyth i'th enw'n fardd.

Bardd penrhaith dawn maith, dyn mad,—a'th

A theilwng ddynodiad ;

[elwir,

A'i awch hael am ddychweliad

Awen glaer i dir ein gwlad.

Dos bellach yn iach, yn awr,—i'th ymgais,

A'th amgyrch awenfawr ;

Na flina, byddi'n Flaenawr,

Inni'n Fardd, a'th enw'n fawr.

HANES Y BEIRDD.

[Mewn llythyr dyddiedig Trefflemin, Ebrill 23, 1809, ysgrifena Iolo:—"Y mae fy Hanes y Beirdd bron yn barod, a gallaswn ddechreu argraffu pe buasai geunyl ddigon o amser ag yspryd i ymallyd yn y gorchwyl. Gwnaiff ddwy gyfrol wyth plyg." Mae llawer iawn o ymchwiliad wedi ei wneud gan lenorion am "Hanes y Beirdd" y sonnir am dano gan yr hen fardd yn y llythyr uchod, eithr yn hollol aflwyddianus; a phan gawsom y cyfleusdra i edrych dros ei lawysgrifau yn Llanover, drwy hynawsedd y ddiweddar Aurhydeddus Mrs. Herbert, ein hamcan pennaf ar y pryd oedd dyfod o hyd i "Hanes y Beirdd Cymreig." Dyma y canlyniad wedi dyddiau o ddiwyd chwilio drwy yr oll o'r ysgriflyfrau. Dylaswn ddweud fod yno gyfrol bedwar plyg drwchus o weithiau y beirdd Cymreig, wedi ei hysgrifenu megis ar gyfer ei hargraffu. Dyma, feallai, y gyfrol werthfawrocaf o'r pedwar ugain yng Nghronfa Iolo Morganwg yn Llanover, ag elai ymhell iawn i wneud y "ddwy gyfrol wyth plyg." Bydd y mân ddarnau hyn o ddyddordeb, gan nad oes amgenach i'w cael. Myfi sydd wedi eu hoes restu.]

Y BEIRDD CYMREIG.

Y Beirdd oeddynt genhadon yn eu cylch clera, &c., yn gopiwyd cerddi a llyfrau eraill, megis hanesion, achoedd, a phethau eraill i'r sawl a'u chwenychaint. Dysgedron darllain ag ysgrifenu oeddynt hefyd; impwyr coed, meddygon dyn ag anifail, coffadwriaid teuluaidd, a phethau hynodion, a rhoddion a gaent, ar y tair gwyl arbennig, yn yd, a mál, a chaws, a chig, ag ymenyn, a gwlan, a dillad, a diodydd.

Ag yr oeddynt yn rhoddi copiau o drïoedd, caniadau, a chyngor, megis "Difregawd Taliesin," ag eraill o bethau a ddoddynt wybodau teuluaidd. Nid oedd llyfrau ond a gaed ganddynt.

Chwedlau neu Hanesion am y Beirdd:—

Gorau prydydd, Gruffydd Grug.

Gorau awen, Dafydd ab Gwilym.

Gorau wybodaeth, Iob.

Gorau ar awdl oedd Dafydd ab Emmwnt.

Gorau ar gywydd mab, Guto'r Glyn.

Gorau ar gywydd merch, D. ab Gwilym.

Tomos Abad Dinas Base a ofynodd i Dudur Aled pwy oedd orau ar awdl. Yntau a atebodd mai Dafydd ab Emmwnt. Fe ofynawdd iddaw pwy oedd orau ar gywydd mab. Yntau a atebodd mai Guto'r Glyn. Fe ofynawdd iddaw pwy oedd orau ar gywydd merch. Yntau a atebodd mai Dafydd ab Gwilym. "Ag er hynny," eber ef, "mi genais awdl na chanodd Dafydd ab Emmwnt erioed ei gwell; ag a genais gywydd mab, ni chanodd Guto'r Glyn erioed ei well; ag a genais gywydd merch ni chanodd Dafydd ab Gwilym erioed ei well." Yna y dywedodd yr Abad mai gair mawr oedd hwnnw o ben arall. Yna yr

atebodd Tudur Aled yr Abad ag a ddywedodd,—
Goreu o honno awdl i Syr Rhys ab Thomas, na
wnaeth Dafydd ab Emmwnt erioes ei gwell,—

“Syr Bwn Dragwn wrth dranc,” &c.

Gorau gywydd a genais i Hwmphre ab Hywel ab
Siencyn na chanodd Guto'r Glyn erioed ei well.
Gorau gywydd a genais i Wenffraid na chanodd
Dafydd ab Gwilym erioed ei well,—

“Y ferch wen fur ychwaneg, &c.”

“Gwir yw hynny,” ebe'r Abad.

Fe fu llawer un o'r prydyddion yn ystiwardiaid
i rai o arlwyddi Morganwg, fel y bu Lewys Glyn
Cothi a Hywel Dafydd ab Ieuan ab Rhys, a Guto'r
Glyn, a Lewis Morganwg, a Ieuan ab Owain ab
Rhydderch, ag eraill; yn enwedig i'r Ieirll
Siasper a Herbert; ag yr oedd iddynt dŷ yn Llan-
illtyd Fawr, lle byddent yn byw ag yn bod, yn
enwedig ar amseroedd; a'r tŷ a elwir “Y Cwrt,”
ag yno ydoedd Lewys Morganwg yn byw pan
wnaeth ef gywydd Illtyd Sant. Mae'n debyg mai
cwrt neu blas Treberferad (Boverton) oedd y ty
hwnnw, ebe Sion Bradffwrdd.

520—570 A.D.—MERDDYN EMRYS, yr hwn a
elwir Taliesin Ben Beirdd, ydoedd yn byw yn
ymyl Ffynnon Gwlad, yn Ewas. (*Edw. Llwyd*
M.S. at Havod.)

BLEDDYN DDU.—Amser Gwilym Goch.

1120—1160 A.D.—MEILIR BRYDYDD, was of
Lleyn in Arfon, and not of Mon. Trefeilir in
Mon was not the residence of Meilir Brydydd,
but of Meilir Milorion, of the house of the tribe
of Hwfa ab Cynddelw, one of the Fifteen Tribes
of North Wales. The poetic talent seems to have
been hereditarily cultivated in the family of

Meilir Brydydd for many generations; this is observable in other families also, as, in Gower, the descendants of Gruffydd Gwyr, as Einion Offeiriad, Thomas ab Hopcin, Llawdden, Huw Cae Llwyd, and others; and the celebrated English poet, Sir John Gower, was of this family; also John Hopkin the Psalmist.

The family of Einion ab Collwyn was a poetical family of very distinguished ability,—Rhys Goch ab Riccart, Rhys Brydydd, Ieuan Tew Brydydd, Lewys Morgannwg, &c., &c. The Powells of Llwydarth, of Maesteg, of Penyfael, of Goetrehen, of Tondur, of Geneu'r Glyn, Esau Powell, Wil Hopcin, Lewys Hopkin, &c., were of this house or family. The Avan branch of the house of Iestyn ab Gwrgan were poetical, and produced many bards of high merit,—Bardd Glas o'r Gadair, Gwrgan ab Rhys, Ieuan Gethin ab Ieuan Lleision, Goronwy Gethin, his brother, and many others.*


1137 A.D.—GWYNFARDD BRYCHEINIOG.


1157 A.D.—GWRGANT AB RHYS LAS.

1214—1292 A.D.—DAFYDD DDU HIRADDUG.—Hwn alwai Rogerus Bacon yn hyddysg "*In libello et idiomate linguarum.*"

Obit 1237.—RHYS GOCH o Dir Iarll, ab Rhys ab Riccart ab Einion ab Collwyn. (He resided at Llwydarth, Llangynwyd.) We have several pieces by him preserved, on mostly Amatory Subjects. He seems to be acquainted with the poetry of the Norman Troubadours, at least, he wrote in a manner greatly resembling them, also he wrote

* Merched v Ty Talwyn were of the stock of Einion ab Collwyn, of whom Iolo Morganwg was descended.





EGLWYS LLANCREFFAN.
Dan gysgodau'r hwyr

in a manner singularly original, his manner of describing (*dyfalu*) is original and beautiful, natural, and at the same time a master sketch of art,—but shall be at the same time pure nature in the consummation of its excellence. I have applied the term *master sketches* to the poems of Rhys Goch ab Riccart, for they appear to be only sketches, but highly original, capable of enlargement. These poems seem to have been improved upon by D. ab Gwilym, who adopted Rhys Goch's manner, and adhered closely to it, writing in a more dignified, melodious, and harmonious rhythm. In fact, we may say that D. ab Gwilym brought the original and beautiful style of Rhys Goch to its full perfection.

1300 A.D.—HOPKIN AB THOMAS, a person of distinguished rank, learning, and genius. He was also a poet, and the greatest patron of the Welsh Bards of his age. He lived in the Vale of Tawe, in Glamorganshire. A bard of his age speaks of him thus:—"He is the son of Thomas who had no enemies, a lion who never secluded himself, son of Einiawn the patron of bards. His learning is refined, he courts fame, he accumulates wisdom, a man of perfect physiognomy, a magistrate, of perfect and just memory; his accomplishments are those of Solomon, in him are beautifully seen the fundamentals of genius, complete and just are all his actions. He is the strength of South Wales, the object of their wisely judged affections, the regulator of the sapient region, equal to holy in sublimities of poetry are the practices of the southern country."

1330—1360 A.D.—DAFYDD AB GWILYM flourished in the middle and latter half of the fourteenth

century. He adopted the manner of Rhys Goch ab Riccart, with more of the Troubadourian licentiousness, which had not appeared before his time in the Welsh poetry. The Troubadours attached themselves to married ladies, so did Rhys Goch, D. ab Gwilym, Bedo Brwynllys and others. The Troubadours send doves, nightingales, &c., on embassies of love, friendships, so did the Welsh bards above mentioned. The Troubadours delighted in beautiful descriptions of nature, spring, landscapes, arbours, &c., &c., so did the Welsh bards of the school of Rhys Goch.

1400 A.D.—DR. SION CENT, *alias* Gwent (bu farw y flwyddyn 1400, yn gant oed). Offeiriad o Gaer Gent, yn Henffordd, lle ei claddwyd.

1400 A.D.—SIAMS AB HARRI O EUAS, yn amser Dr. Sion Cent.

1400—1440 A.D.—IEUAN TEW, hynaf, oedd brydydd o Dir Iarll, ag a aeth i Gydweli i fyw, lle yr oedd yn offeiriad. Prydydd gwybodus, a gwr duwiol oedd ef, a'r gorau ar gywydd doethineb o neb yn ei amser.

1400 A.D.—SYR HARRI CYDWELL.—Y Mastr Harri, ficar Llanllawddog.

1400—1480 A.D.—IEUAN DDU ab Dafydd ab Owain, o Felin Ifan Ddu. Efe a brynodd Ddyffryn Aberdâr, ag a aeth yno i fyw. Yr oedd ef yn wr aberthog iawn meddant, a chymaint ei barch gyda'r diawl fel nad oedd dim ar law yr h.n wrda nas celai Ieuan ei gâr, ond ager ei enau. (*Edw. Ifan Aberdar wrth Iolo.*)

1420—1460 A.D.—RHYS LLWYD ab Rhys ab Riccart o Lanharen, tad Lewys Morganwg, a thad cu Twm ab Ifan ab Rhys.

1430—1500 A.D.—LLAWDDEN oedd y dysgedigal o brydyddion ei amser. Ei enw oedd Ieuan ab Ieuan. Llawdden y Gar-hir ei gelwir ef yn fynych mewn llyfrau. Mab gordderch oedd ef i ferch foneddig o le a elwid Llyn Llychwr ym mhlwyf Llandeilo Tal y Bont, yr hon a fu farw yn ei gwelyfod arno. Efe a gwnnwyd ag a fagwyd yno gan ei ewyrth a'i fodryb, ond wedi cyrraedd oedran gwr efe a aeth i Fachynlleth, lle bu byw hyd yn hen wr, yn offeiriad yn yr eglwys honno, ag yna y dychwelodd yn ol i'w blwyf genedigol, lle bu farw, ag a gladdwyd yn yr eglwys honno, fel y mae yn hysbys wrth ei farwnad ef, a gant Iorwerth Fynglwyd.

1430—1460 A.D.—IEUAN GETHIN ab Ieuan ab Lleison oedd yn byw ym Mlaen Baglan, a pherchen ar y lle; yn wr boneddig o waed uchel ag yn ysgolhaig mawr. Efe oedd y prydydd gorau yng Nghymru ar senn ag ysmaldod, a lluaws a fuont yn ddisgyblion iddo.

1440 A.D.—OWAIN AB RHYDDERCH ab Harri ab Morgan ab Lleison oedd brydydd da iawn ar hen gerdd deuluaidd a elwir "cwndid," neu garol gyffredin, ag yr oedd ef yn byw yn Nhre Sigin, ym mhlwyf Llanilltyd Fawr; ag yn cadw ysgol Saesoneg yno, ag am hynny y gelwid ef Owain Sais.

1470 A.D.—IEUAN AB OWAIN ab Rhydderch, a elwid Ieuan Sais, oedd brydydd da hefyd ar gywydd a cherdd deuluaidd, a chyntaf o'r Seisiaid oedd ef y rhai a gawsant ystad Treberfered drwy briodas â thifeddes. Ag yn yr un amser a Lewys Glyn Cothi ydoedd efe. Y mae rhai hen gani-d u o'i waith ef yn dyddio rhwng 1470 a 1500.

1450—1490 A.D.—DAFYDD NANMOR, o Swydd Feirionydd.

WILLIAM MATHEW. }
IOAN ATHRAW MYNYW. } Heb un dyddiad.

1450—1480 A.D.—

LLYWARCH BENTWRCH. } Yr un yw y
LLYWARCH BRYDYDD MOCH. } ddau.

1450 A.D.—IEUAN BRYDYDD HIR o Feirionydd.
(Gelwir ef hefyd yn Ieuan Brydydd Hir Hen.)

1450 A.D.—HYWEL AB SWRDWAL.

1450—1480 A.D.—HUW CAE LLWYD, Cadeirydd Gorsedd Morgannwg yn 1470.

1490 A.D.—IEUAN CAE LLWYD, fal Ieuan ab Huw Cae Llwyd.

1420 A.D.—RHYS GOCH O ERYRI oedd yn byw Hafod Garegog, ac a gladdwyd yn Cilhart yn y flwyddyn 1420.

1440 A.D.—DAFYDD AB EMMWNT a anwyd ag a gladdwyd ym mhlwyf Hammer, Swydd Callastr.

1451 A.D.—Llawdden yn trefnu Eisteddfod Gyntaf Caerfyrddin.

1461 A.D.—Yr ail Eisteddfod yng Nghaerfyrddin, y cyntaf o Goroniad Edward IV.

1460—1500 A.D.—IORWERTH FYNGLWYD, oedd yn byw ym mhlwyf Llansantffred Fawr, a elwir yn gyffredin Sant y Brid, mewn ty a elwid Craig yr Eos, ag yn berchen arno, a saer cerrig ydoedd ef, a gwr dysgedig iawn ar lyfrau yr hen brydyddion, ag yn achwr da iawn. Y mae Gramadeg o'i waith ef yn Margam, lle yr oedd ef yn fardd teulu yr abad yno.

1460 A.D.—ROBIN DDU O FON, oedd yn byw yng Nghapel Pentir, gerllaw Bangor, 1460.

1460 A.D.—RHYS NANMOR, o Faenor Fynyw, oedd ystiward i Syr Gruffydd ab Nicolas, ag a

gafas swydd cadwr (*keeper*) yng Nghastell Gwebli yng Ngwyr, ag yno efe a briodes ben-defiges oludog o wehelyth Gruffydd Gwyr, ag yno y ganed iddo fab a elwid Dafydd Nanmor, ag ef a gant yr Awdl Fraith, nid amgen na honno yn dechreu fal hyn,—

“ Krist kadw yr wythfed Vrenin dyledog.”

Ag ef a ganodd y gorchestion a ddanghosws ef yn Eisteddfod ddiweddaf Caerfyrddin; ag nid yr hen Dafydd Nanmor o Wynedd, serch ni allaf lai na barnu mai wyr i'r Dafydd Nanmor hwnnw ydoedd, am y credaf mai mab i D.N. hen oedd Rhys Nanmor o Faenor Fynyw, a gafodd rhyw annog i wladychu yn Neheubarth gan feallai Gruff. ab Nicolas, neu gan Rhys ab Gruffydd o Abermarlais, o hiliogaeth Ednyfed Fechan o Gaernarfon. Fodd bynnag, tra dylis yw nad yr Dafydd Nanmor a ganodd y Gorchestion, nid oedd y fath goeg-gynhildeb wedi cael esgor arno yn ei oes ef, neu cyn pen hanner can mlynedd o leiaf wedi hynny. Dywed Anthony Pwel mai Dafydd Nanmor y Gorchestion oedd yn ymdynnu a Dafydd ab Emmwnt am y gadair yng Nghaerfyrddin, lle rhodded y gorau i Dafydd ab Emmwnt, a digon hysbys nad oedd ef wedi pendroni gwbl gymmaint a Dafydd Nanmor ieuanc, canys felly yn fy marn i y dylit ei alw ef, er gwared llawer gwell prydydd nag oedd ef, sef hwnnw—Dafydd Nanmor Hen, o'r cywilydd a ddylit ei bentyrru dros fyth ar ben prydydd y Gorchestion. (*Hyn o lyfr Sion Bradffurd.*)

1490 A.D.—TUDUR ALED.—Nai mab chwaer i Dafydd ab Emwnt. Yn Eisteddfod Nant Conwy doded ar Dudur Aled ei rheoli yn gyfundrefn â

rheol Caerfyrddin, a hynny a fu, ag o hynny y gelwid y drefn honno "Rheolau Tudur Aled," a "bwrdd crwn y beirdd a'u cred," fal y cânt Iefan Tew o Gydweli. Ac yn amser Harri VIII. y cafwyd llythyr cyfrwym i gynnal Eisteddfod gyntaf Caerwys, lle bu olrain ar hen ddefodau a trefnau Castell Rhaglan, yn amseroedd Ieirll Caerlleon, ag o hynny gwellhau y trefnau, a chyn amser y frenhines Elsbeth, y sydd yn awr, cafwyd llythyr arall, ag ym mraint hwnnw y bu'r Eisteddfod ddiweddaf yno. [*Llyfr Anthony Powell o Lwydarth.*]

Ieuan Tew o Gydweli, yr hwn a ganodd yr englyn, sef fal mae yn ei gwbl, fal hyn,—

"Yn llyn a'i ddilyn gwel ddyled,—prydydd

Pur adwedd ei dwned ;

Rheolau Tudur Aled

A Bwrdd Crwn y Beirdd a'u cred."

[*Tudur Aled a'u cânt, medd Iolo Morganwg.*]

1450 A.D.—SIANCYN FYNGLWYD

1460 A.D.—

DAFYDD FYNGLWYD.

DAFYDD AB SIANCYN FYNGLWYD.

} Tebyg mai
yr un
oeddynt.

1480 A.D.—GUTO'R GLYN.—Ef a gladdwyd yn Llanegwestl, ym mhlwyf Llandyssilio, yn swydd Dinbych. Dalodd yn ei henaint, a'r abad Dafydd a ofalodd am dano tra bu byw.

1480 A.D.—GUTYN OWAIN, o Lan Farthin, yn swydd y Mwythig, arwydd-fardd a hanesydd nodedig.

1480 A.D.—RISIART IORWERTH.—(Mab ydoedd i Iorwerth Fvnglwyd. Canodd Dafydd Benwyn farwnad iddo.)

1460 A.D.—IEUAN DEULWYN o Gydweli, yn swydd Gaerfyrddin.

1480 A.D.—GWERFIL MECHAIN. (Merch Hywe; Vychan, yr hon oedd farddones orwych yn ei dydd.)

1490 A.D.—IEUAN CAE LLWYD, fel Ieuan ab Huw Cae Llwyd.

1490 A.D.—SYR RHYS o Garno.

1490 A.D.—SYR DAFYDD AB PHYLIP RHYS, prydydd o blwyf Llansamlet, yn amser Syr Rhys ab Thomas. Mae cywydd o'i waith eef yn y "Byrdeu Mawr," tudal. 466, &c.; hefyd cân o'i waith yn "Hen Ganiadau."

1500 A.D.—LEWYS MON, a gladdwyd yn Llanel-gwestl.

1500 A.D.—GRUFFYDD HIRAETHOG.

1500 A.D.—GRUFFYDD AB IEUAN AB LLYWELAN FECHAN o Lannerch Llyweni, Yswain.

1500 A.D.—HUW DAFYDD LLWYD AB Y GOF.

1500 A.D.—HUW AB DAFYDD O EUAS.

1500-1550 A.D.—THOMAS AB IEFAN ab Rhys ab Rissiart ab Rhys Brydydd. Ef a aned ym Margam, bu wedi hynny byw yn Llangynwyd, yn dal tir, lle wrth bob tebygoliaeth y bu farw; yr oedd yn ymarfer llawer â'r hen brif arfer o ganu, sef yr un ffurf ag y gwnai Taliesin. Medrai hefyd y ffordd ddiweddarach ar gynghanedd.*

1500-1580 A.D.—SILS AB STON, o'r Adyr, prydydd da iawn, ag yn fawr ei barch gyda William Evans, Chawnslor, Llandaff. (Yr oedd

* Claddwyd ym Monachdy Margam, lle mae ei fedd i w weled hyd heddiw. yn y flwyddyn o oed Crist, 1506, a chanodd Hopcin Twm Phylip oedd ddisgybl iddo, ei Farwnad. Gwel y "Cwmdidau," gan Hopcin a Chadravd, tudal. 157.

yn bresennol yn Eisteddfod Llandaf, ag efe ganodd y "Cywydd heddwch rhwng Twm Sion Cati, a Dafydd Benwyn o Langeinor, a ddarodd gwmpo ma's am a ga 'Elo Bach' oedd gyfeilles dda."

"Blin ydynt fy gynt yn gaeth,
Fwtw i'r dwfn y froderiaeth,
Ond blinach oedd i'r blaenau,
Oll dwyn a'i cholli ill dau."

1530-1560 A.D.—RISIART FYNGLWYD.

1530-1560 A.D.—SYR OWAIN AB GWILYM O Dalyllyn.

1440 A.D.—GRUFFYDD DWN.

1550 A.D.—DAFYDD LLWYD MATHEW, Celli Gaer, prydydd gorchestol.

1550-1600 A.D.—MORGAN PYWEL o Benrhiw'r Glyn, a HOPCIN TWM PHYLIP o'r Gelli Fid, THOMAS LLEWELYN o'r Rhegos, WILLIAM CAP DU, a LLEWELYN SION o Langewydd, a wnaethant lawer iawn o ganiadau teuluaidd duwiolion, ag y mae amrw o'honynt ar gof y cyffredin ym Mlaenan Morganwg hyd y dydd heddyw.

1550 A.D.—THOMAS POWEL o Ewas. (Ef yw awdwr yr englyn i'r henafgwr:—

"Pan el dyn o'i lun a'i lonwedd,—troi o gylch
Tri-ugain mlynedd:

Ymroed pob gwalch o'i falchedd,
Ei barch yw myned i'r bedd.")

1550-1600 A.D.—LLEISON CRADOC o Dregolwyn. (Yr oedd ef yn fardd tra chywrair, ag yn babudd o ran cred; ef a wnaeth yr englynion a ganlyn i Fargam, pan drowyd y "Saint" allan o'r Fon-achlog,—

"Margam, gwae ni am ergyd,—a gafas
Mae gofal yn aethlyd:

Doe bu myned o'i bywyd,
Diffodd gardd y ffydd i gyd.

“I ble dda bardd hardd ei burddysg—bellach,
'E ballodd nawdd i'n mysg;
Trwm ar ein hiaith yw'r trymysg,
Trais rhyfedd a diwedd dysg.”)

1559 A.D.—HYWEL GLAN TAF, Plwyf Llanilltyd
Faerdref, prydydd lled dda ar gywydd ag
englynion.

1565 A.D.—WILLIAM CYNWAL, arwyddfardd, a
raddiwyd yn ddisgybl pencerddaid yn Eistedd-
fod Caerwys, 1565. Efe a gladdwyd yn Ysbytty
Ifan.

1530-1560 A.D.—WILLIAM LLEYN.—Offeiriad o
Leyn yn swydd Caernarfon.

1565 A.D.—SIMWNT FYCHAN, o Lanfair
Dyffryn Clwyd. Efe a raddiwyd yn bencerdd yn
Eisteddfod Caerwys yn Mai 1565.

1565 A.D.—SION TUDUR.—Disgybl pencerddaid
Eisteddfod Caerwys, 1565. Claddwyd yn esgobdy
Llanelwy. Yr oedd yn rhyw swyddog yno. Yr
oedd ef yn byw o leiaf un rhan o'i einioes yn y
ty ym Modfari, lle'r oedd Edward Jones y
prydydd yn byw, yn Ty'r Celyn.

1580 A.D.—SION MAWDDWY.—Prydydd o
Fargam oedd ef, a thincer, yn trafaclu'r wlad;
er hynny, yn fawr ei barch gyda boneddigion;
ag yn Ngwynedd, mewn lle a elwid Mawddwy,
efe a ddaeth yn gydnabyddus a boneddiges oedd
hefyd yn etifeddes, ag a'i priodws hi, ag a wlad-
ychws yno, ag am hynny y gelwid ef Sion
Mawddwy.

1590 A.D.—RISIART Y FWYALCHEN, sef Syr
Risiart William. Offeiriad oedd i rhyw blwyf yn

nwyreinbarth Morganwg, ag yn byw o gyich y flwyddyn 1590, ag o hyn hyd 1620. Ei brydyddiaeth gan mwyaf ydynt gerddi teuluaidd, ar destynau crefyddol a moesol, yn y Gymraeg fynyachaf. Efe a ganai weithiau yn Saesoneg. Ymhlith eraill o'i gerddi Saesoneg y mae honno sydd yn dechreu ar fesur triban:

"Eternal God Almighty," &c.*

Obit 1590 A.D.—DAFYDD BENWYN oedd gefnder i Sion ab Dafydd Rhys, medd Sion Bradffwrdd o'r Bettws. Canodd Sion Ieuan ab Rhys Englynion Marwnadol iddo. Wele un o honynt,—

"Medrai'r gloyw-fardd hardd weheirddion,—
Medrus mewn mesuron; [madrodd
Medrai addysg mydryddion,
Medrai ddysg 'madroddion Iôn."

(Gadawodd tua 200 o gywyddau ar ei ol yn un gyfrol. Yr oedd yn achydddydd medrus. Mae ei weithiau hyd yn hyn heb eu cyhoeddi.)

1580-1610 A.D.—WILLIAM HYWEL, y bardd a elwid William Cap Du. Un o'r Brodyr Duon oedd ef o gerllaw Penybont ar Ogwr o enedigaeth, ag yn y gymydoggaeth honno y bu ef farw yn amser Elizabeth. Efe a wnaeth lawer o ganiadau duwiol, ag nid oes nemawr o babyddiaeth ynddynt.

1600 A.D.—EDMUND PRYS, periglawr Penmachno, ag Archddiacon Meirionydd. Trodd y

* Mae e' *Confession* yn argraffedig yn y "Cwmdidau," yn dechreu fel hyn:—

"I haf bing tw bysy.
In law maters lost my fetthers,
And haf bing dwl, in my yowthffwl
dais and livyd disgontentyd, &c., &c."

Salmau ar fesur cerdd, a chynorthwyodd y Doctor Morgan i gyfieithu y Beibl.

1600 A.D.—HUW LEWYS o Flaen Cannaid. Prydydd da. Mae englynion o'i waith yn "Llyfr y Tri Aderyn," a rhai eraill yn y "Wyddor Uchod," o waith Morgan Llwyd o Wynedd, ag oll yn rheolaidd a phuraidd o ran mesur. Prydydd melus iawn a gwybodus o'r gelfyddyd oedd efe, ag a wyddai fwy o'r pethau hyn na nemawr o'i amser. Y mae peth o'i waith eto idd ei gael.

1609 A.D.—Y DOCTOR SION DAFYDD RHYS, a fu farw yn y flwyddyn hon.

1630 A.D.—LLEW MACHNO.—GWT o Benmachno, yn Nghaernarfon.

1630 A.D.—EDWARD DAFYDD o Fargam.—Prydydd dysgedig a da iawn. Gweler "Cyfrinach y Beirdd" am ei gyweirdeb ef. Mae ei gywyddau, hefyd caniadau teuluaidd o'i waith ef, mewn bod.

1680 A.D.—DAFYDD EDWARD, ei fab. Prydydd da iawn.

1640 A.D.—BLEDDYN SION o Lancarfan, prydydd lled dda ar gywydd a chân teuluaidd.

1650 A.D.—RISIART O'R GLYN, Glyn Corrwg.—Cywydd a chân.

1650 A.D.—IEUAN RHYDD, yn St. Ffagan, neu yn y gymydogeaeth honno. Prydydd da iawn, a bardd teulu yng Nghastell San Dunnwd.

1660 A.D.—TEIRALLT AB HYWEL oedd fardd yn byw rhywle tua Glynogwr.

1660 A.D.—SIENCYN RISIART o'r Bedwellty, Blaenau Gwent. Englynwr lled dda, ag yn fawr iawn ei gas at yr Ymneillduwyr,

1715 A.D.—Beirdd Morganwg oeddynt bre-sennol yn Eisteddfod y Pil, y flwyddyn hon:—

I.—SION BRADFFWRD o'r Pandy, Bettws.

II.—RHYS MORGAN, Pen Craig Nedd.

III.—DAFYDD NICOLAS, Aberpergwm.

IV.—DAFYDD THOMAS, yn byw yn y Pil, wedi hynny yn mhandy Ystradyfodwg.

V.—WILL HOPCYN o Langynwyd.

VI.—DAFYDD HOPCYN o'r Coety.

VII.—GRUFFYDD BACH, neu Gruff. ap Hywel, o Aberafan, a elwid hefyd y "Digri Bach o Aberafan."

VIII.—NICOLAS RHYS o'r Cas Newydd, Penybont a'r Ogwr.

IX.—SION RHYDDERCH o Fon.

Y Dafydd Thomas uchod, fe briodws wraig weddw yn y Pil, ymhen mis neu ddau wedi marw ei gwr. Tafarnwraig oedd hi, a gwraig wherllyd ysgrymmyn, am hynny ni chafodd y prydydd fawr hawddfyd gyda hi, a gorfu arno ei gadael, ag ym Mhandy'r Ystrad y treuliwys ef y blynyddoedd diweddaf o'i einioes. Dyn moesgar a phrydterth iawn oedd ef, yn hardd ei ymarwedd-iad, ag yn ymgnio cadw ei dafarn yn rheolaidd ag yn ddiargyhoedd; am hynny, ni chelai ef awr yn heddwch gan ei wraig; bu hynny yn achodd rhannu rhyngddynt.

1722 A.D.—IAGO AB DEWI, *obit.* (A very able poet and antiquary of Blaen Gwili, Carmarthen-shire.)

1730 A.D.—SIENCYN LYGAD RAWLIN o Fiscyn oedd brydydd cymeradwy yn ei ddydd. 'Rodd yn wybodus yn y gelfyddyd wrth gerdd, yr oedd yn byw yn mhlwyf Llantrisant. Efe oedd awdwr

“Cân yr Hen Wr o'r Coed.” Tôwr oedd ei wrth ei grefft, ond fe fu rai blynyddau yn trafaelu Cymru dan ganu caneuon preintiedig, peth o'i waith ei hun, peth o waith eraill; fal y clywais gan Morgan Rhys o'r Trallwn ynghylch y flwyddyn 1778,—hen wr call, a wyddai lawer am hen brydyddion Morganwg.

1770 A.D.—MORGAN LLEWELYN, of Neath, showed me a MS. of at least 200 years old, which contained a great number of pieces by D. ab Gwilym. Among others were two or three or perhaps more that were properly songs, in the metre called in South Wales “Cyhydedd Gyrch” a'r “Gyhydedd Lysg,” in North Wales “Awdl gywydd yr hen ganiad.” I did not copy them, but have since sorely repented. The MS. has been lost to all surviving friends of Mr. Llewelyn, and with it I fear the pieces of D. ab Gwilym, full beyond a doubt of poetical beauty. Yr oedd Morgan Llewelyn yn dyfod yn unionllin o Thomas Llewelyn o'r Rhegos.

1778 A.D.—EDWARD MORYS, o'r Perthi Llwydion, ym mhlwyf Cerrig y Drudion, yn Swydd Dinbych. Y mae y pumed gwr yn byw yno 1778.

Y mân gofion uchod, y cymerais i Iolo Morganwg o Lyfr Owain Jones, ei Eirgwbl Barddoniaeth Beirdd Cymru.

GWEDDI'R ORSEDD,
A ELWIR GWEDDI'R GWYDDONIAID
(*Tir Iarll*).

Dyro Dduw dy nerth, ag yn nerth dioddef;
A dioddef dros y gwir, ag yn y gwir pob goleuni;
Ag yn ngoleuni pob gwynfyd, ag yn ngwynfyd
cariad,
Ag yn nghariad, Duw, ag yn Nuw, pob daioni.
[O Lyfr Mawr Margam.]

CYHOEDDIAD EISTEDDFOD.*

"Y GWIR YN ERBYN Y BYD."

"GWAEDD UWCH ADWAEDD."

☉AN Feirdd Ynys Prydain yng Ngorsedd yr Alban Elfed, ar Donn y Maen Llwyd, ar Fynydd y Fforest, ym Morganwg, pan oedd oed Crist un mil saith cant a phedwar ugain a dwy ar bymtheg; a Gorsedd Gyfallwy Beirdd Morganwg a Gwent ag Euas, ag Erging, ag Ystrad Yw.

"Duw a phob daioni."

Pan oedd oed Crist yn un mil saith cant a dwy ar bymtheg a phedwar ugain, a Gwyl yr Alban Elfed, sef cyfnod cyhydedd haul y mesyryd, y rhoddwyd gwys a gwahawdd dan osteg un dydd a blwyddyn gan "Waedd uwch Adwaedd," yng Nghadair Gorsedd Gyfallwy Beirdd Morganwg, yngolwg a chlyw gwlad ag arlwydd, ag yn llygad haul a wyneb goleuni, a nawdd i bawb a geisiant fraint ag urddas a thrwydded wrth gerdd

* Gwahoddiad a roddwyd gan *Iolo Morganwg* i Feirdd Ynys Prydain, yn ol trefn a defod y Cynfeirdd, yn y flwyddyn 1797.

Cyhoeddiad Eisteddfod 87

a barddoniaeth, herwydd ag wrth fraint a defod Beirdd Ynys Prydain, gyrcha Tonn y Maen Llwyd, ar Fynydd y Fforest Newydd, ymhen un dydd a blwyddyn, yn awr cyntefin anterth, a chynnal gan haul, lle nis bydd noeth arf yn eu herbyn, ag yno yn arwyddol y tri chynntefigion Beirdd Ynys Prydain, nid amgen Plenydd, Alawn a Gwron; a chyda hwynt Berddyn Bach, a Tomas Rhisiart, Fardd wrth Gerdd dafawd a than; a Rhys Tomas, Groes Faen, a Rhys ab Ifan, Cethinog, a Iolo Fardd Glas, a Iolo Morgannwg,—beirdd a thrwyddedigion wrth Faint a defod Beirdd Ynys Prydain, ag yno cynnal Barn, Cadair a Gorsedd yngolwg a chlyw gwlad ag arlwydd, ag yngwyneb haul a llygad Goleuni, ar gerdd a barddoniaeth, ag ar bawb o barth awen a buchedd a geisiant fraint ag urddas a thrwydded wrth gerdd a barddoniaeth yn nawdd Cadair Morganwg a Gwent ag Erging, ag Euas, ag Ystrad Yw, ag wrth fraint a defod Beirdd Ynys Prydain.

{ "Llafar bid lafar." }
 { "Duw a phob Daioni." }

GWEDDI'R ORSEDD O LYFR TRAHAIARN BRYDYDD MAWR.

Dyro Dduw dy Nawdd, ag yn Nawdd Pwyll;
 Ag yn Mhwyll Goleuni, ag yn Ngoleuni
 Gwirionedd;
 Ag yn Ngwirionedd, Cyfiawnder,
 Ag yn Nghyfiawnder, Cariad,
 Ag yn Nghariad, Cariad Duw,
 Ag yn Nghariad Duw, pob Gwynfyd.
 Duw a phob Daioni.

HEN EISTEDDFODAU.


WID oes iaith na chynghanedd gywir yn un o'r englynion,* ond twyll gynghanedd odlau, gormod odlau, ymsathr odlau, eto gellir dywedyd nad oedd Sion Rhydderch yr amser hynny ond ieuanc, a heb gyrhaedd digon o wybodaeth yn nghelfyddyd prydyddiaeth, os byth y cyrhaeddodd ef hynny, yr hyn a ellir amheu yn gryf.

Yn yr Eisteddfod hon, meddir, y danghosodd Rhys Morgan, o Ben Craig Nedd, ei awdl "Yr Iaith Gymraeg," ar y pedwar mesur ar ugain, ag a breintiwyd yn Ngramadeg Sion Rhydderch. Yr oedd Thomas Morgan o'r Tyla Garw, Llew ab Ifan o'r Can Erw, ag Efan William o Llansanor, Thos. Leison o'r Prysg, ag eraill yno yr un pryd, ond nid wyf hyd yma wedi cael gafael ar a wnaethant neu a ddanghosasant yno. Fy marn i yw nad oedd nemawr o bethau mawr neu o bwys ar gerdd dafawd yn dyfod o flaen yr Eisteddfodau yn y Pil ag Ystrad Owain yn yr amseroedd hynny. Eto yr oeddynt yn cynnal yr hen gelfyddyd, yn cadw ar gôf gwlad yr hen fesuron a'u rheolau. Yr un peth a ellir ddwedyd am fân eisteddfodau eraill, a gynnelid yn Melin Ifan Ddu, Llangynwyd, Ystrad Tyfodwg, Llanilid, a lleoedd eraill.

Yr oedd y rhai hyn yn cael eu cynnal yn lled aml, ni wn ai yn flynyddawl neu yn achlysurawl oeddynt; ag os yn flynyddawl oeddynt, ar ba ddydd yn benodawl eu cynnelid, ymhob un o'r

* Englynion a adroddwyd gan Sion Rhydderch, o'r Mwythig, yn Eisteddfod Ystrad Owain, Bro Morganwg, Mai 28ain, 1720.





COFADAIL IOLO MORGANWG.
Ar fur eglwys Trefflemin.

Hen Eisteddfodau 89

mannau hyn. Dechreuasant fyned i lawr yn nghylch y flwyddyn 1740, a chweddi hynny, llai aml, a mwy achlysurol yr eisteddfodau bychain hyn ym Morganwg. Yr hynotaf ohonynt oll oedd un Ystrad Owain yn yr amseroedd hynny. Y mae llawer o sôn yn y fro am Eisteddfodau'r Beirdd yn Ystrad Owain. Yr oedd Ieuan Bradffwrð, Robert o Lancarfan, a elwid William o'r Ydwal; hefyd Lewys Hopcin yn eu mynychu. Nid oeddwn i ond ifanc yr amser hynny, ag ni ddaeth i fy meddwl erioed i ofyn i'r gwyr da hyn ddim o blegid yr Eisteddfodau hynny a dâl son am dano. Mewn hen lyfr ysgrifen yn llaw Richard Thomas, gwehydd o Benybont, y mae coffadwriaeth ferr am Eisteddfodau Ystrad Owain, mai ar yr 28ain a'r tri diwarnod dilynol o fis Mai eu cynhelid, a bod hynny yn beth er cyn cof neb ag oedd yn fyw yn yr amser hynny. Bu Sion Rhydderch yno yn 1720, ag ef a ganodd yr englynion, a dywedir iddo ymddigio yn fawr, achos na roddwyd y gadair iddo; ond fal y dywed hen ddihareb,—“Efe a biau digio a rotho achos digofaint.” Felly Sion Rhydderch, yr oedd achos cyfiawn i'r beirdd yno i ddigio wrthych chwi, am eu haflonyddu â'r cyfryw sothach yn enw englynion ag ydynt y rhai hyn. Nid oes nag iaith na chynghanedd gywir yn un o'r englynion, ond wyll cynghanedd ag odlau.

Y WENHWYSEG A'R WYNDODEG.*

Y MARFERAIS â rhai geiriau a geir ar arfer lled gyffredin yn y Wenhwyseg, sef iaith pedair sir ddwyreiniol Deheubarth Cymru. Y mae'r Dr. Davies yn nodi rhai o honynt yn ei Eirlyfr fal hen eiriau wedi cael eu gollwng dros gof ag arfer er ys oesoedd yn ol, ond cam syniodd ef yn hynny. Y mae'r Wenhwyseg yn burach o lawer yn null ei hymadroddion na'r Wyndodeg, er bod llawer yn barnu yn amgen. Y mae yn nes o lawer at iaith ein gorhenfeirdd na'r Wyndodeg, nid ymarferodd un ysgrifennwr, nag ar gân nag mewn rhyddiaeth, erioed a thafodiaeth anhydrefn Gwynedd, hyd ynghylch dechreu'r bymthegfed ganrif; y Wenhwyseg yw iaith holl hen feirdd Gwynedd yn amser y Tywysogion, a thros amser hir wedi hynny; ni welwyd rhyddiaeth erioed, hyd o fewn i'r pedwar can mlynedd diweddaf, yn nhafodiaeth Gwynedd; ag am Hanes Tysilio, ni fu bodoldeb erioed iddi ond yn ffug ag anwiredd Lewys Morys a'i gydymddichellwyr. Y mae rhif y Cymry a lafarant y Wenhwyseg yn amlach o lawer na'r rhai a siaradant un o gangheni eraill y Gymraeg, am hynny cyfiawnder yw dwyn eu hiaith ymlaen i'r goleuni a'i rhyddhau o'r tywyllwch yn niha un y mae wedi bod dros hir amser agos yn anweledig i bawb. Y mae'n amlach ei geiriau, yn fwy rheolaidd ei chyfansoddiad, yn fyrach, cryfach, a gloywach eu hymadroddion na'r Wyndodeg na'r Ddeheubartheg.

* Rhagymadrodd Iolo Morganwg i'w "Salmau yn yr Anialwch," a argraffwyd dros yr awdwr yn Merthyr, yn y flwyddyn 1812.

Y Wenhwyseg a'r Wyndodeg 91

Heblaw'r geiriau Gwenhwyseg, ymarferais ag ambell air arall anghyffredin, a lluniais eiriau cyfansawdd, lle bu achos imi, er darlunio'n fyr ag yn eglur fy nhybiau a'm syniadau. Rhoddais yn niwedd y llyfr eglurhad y rhan fwyaf o'r geiriau a fernir yn anghyffredin yn Ngwynedd, ag yn rhannau eraill o Gymru.

Nid ymarferais eithr o ddamwain a'r cynghaneddion barddoniaidd, achos eu bod yn caethu'r synwyr, yr ymbwyll, a thrwy hynny'r gwirionedd; am hynny nid addas ymarfer a nhwy ar gân arwest crefyddol. Nid oes dim gymaint yn gofyn byrder ag eglurder iaith nag ymadrodd ag egwyddorion a syniadau crefyddol.

Nid wyf wedi mawr arfer a throellau ag addurnau, am nad yw cyffrediniaid Cymru yn eu deall. Gellir dywedyd llawn gymaint am y rhan fwyaf ym mhell o'r athrawon crefyddol, yr un peth am y deillion arwain ag am y deillion dilyn; pa rai a'm hudasant fil o weithiau i feddwl fy mod yn canfod gair y Prophwyd Hosea yn cael ei gyflawni yn Nghymru:—

“Fy mhobl a ddifethir o eisiau gwybodaeth.”

ARAITH IOLO YN EISTEDDFOD FAWR
CAERFYRDDIN YN 1819.*.

Ar agoriad yr Eisteddfod dydd Iau, Gorffennaf Sed, 1819, daeth hen fardd Morganwg i mewn i'r ystafell, gan ymbwyso ar fraich bardd ieuanc Ceredigion, sef Daniel Ddu. Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, sef yr Esgob Burgess, o Dy Ddewi, mewn araith a ennillodd gymeradwyaeth mawr, ag ar ei ol anerchwyd y gynulleidfa gan Iolo Morganwg, yn y geiriau canlynol:—

“ Fy Arlwydd Esgob, a chyfeillion oll,—Ni allaf ychwanegu ond ychydig at yr hyn a ddywedwyd mor dlws a phwrpasol gan ei Arlwyddiaeth, ond eto dymunaf eich cenad i wneuthur ychydig sylwadau. Un o brif ddibenion y Gymdeithas Gymreig, o dan nawdd pa un y cynhelir yr Eisteddfod hon, yw coleddiad ein barddoniaeth genhedlaethol, a'i adferiad i'w hen nodwedd, sef bod yn geidwad gwirionedd, a'i addysgydd. Ym mabandod pob cenedl adnabyddus i mi, y mae barddoniaeth wedi bod yn gyfrwng cyntefig gwybodaeth, y mae wedi bod yn ddechreuad llenyddiaeth. Mewn oes gynnar o'r byd gwareiddiwyd y Cymry i raddau pell trwy ganiadau moesol a meddylgar y beirdd cyntefig. Yn ngoleuni cân ffurfiasant iddynt eu hunain undeb cymdeithasol. Y mae gweddill eu dysgeidiaeth farddonol a derwyddol yn ein plith hyd y dydd heddyw, a danghosant y fath gyrrhaeddiadau

* Mae yr araith ganlynol yn dangos hen Fardd Morganwg mewn nodwedd areithydd. Nis gwyddom am un araith arall a draddododd wedi ei chofnodi.

helaeth mewn gwir ddoethineb nas gellir ei gael yn gyffredin ym mhlith cenedloedd gwareiddiedig y byd hwn. Y mae barddoniaeth wedi diogelu ini ein iaith wreiddiol, yn ei holl burdeb boreuol, trwy oesoedd o dywyllwch, ym mha rai y mae holl ieithoedd cenedllog niferawg yr Ymherodraeth Rufeinig wedi trengu. Y mae iaith ardderchog Groeg, yr hon a hanfodai am ddwy fil o flynyddoedd mewn purdeb anghyfnewidiol, wedi diffodd. Y Lladineg, iaith sefydledig a chyfreithlawn yr Ymherodraeth fawr hyn, sydd yn iaith farw er ys mil o flynyddoedd. Ond y mae yr hen iaith Brydeinig eto yn fyw, ag y mae ynddi engreiffitiau awdurdodol o lenyddiaeth, pa rai sydd yn hawdd i'w deall y dydd heddyw. Iaith Cymru yw'r unig un sydd wedi gorfyw marwolaeth yr Ymherodraeth Rhufeinig, a'i holl ieithoedd perthynol. Y mae coleddiad llenyddiaeth yr iaith hon wedi denu sylw egniol y gwir barchedig, Seiliedydd a thad yr uchel barchus 'Cymdeithas Lenorol Cymru,' yr hon a ddengys ei hun heddyw. Enwn y dydd hwn yn ddydd adgyfodiad dysgeidiaeth yn ein hanwyi iaith genhedlaidd, a gwawria'r dydd hwn mewn uchel ysblander yn nhref Caerfyrddin.*

Cafodd Caerfyrddin, agos i bedwar cant o flynyddoedd yn ol, yr anrhydedd a'r uchel barch

* Mae hanes gweithrediadau yr Eisteddfod hon wedi eu cyhoeddi ynghyd â'r cyfansoddiadau buddugol. Barnwyd yn addas mewn cyfarfod cyhoeddedig yng Nghaerfyrddin dan amgeledd gwyr urddasol a dysgedig, i Eisteddfodau hlynnyddol i gael eu cynnal yn gylchynol yn ardaloed Powys, Gwynedd a Gwent, mewn cysvlltiad â Dyfed; a bod cymdeithas idd ei sefydlu yn y fam-ddinas, i gydweithredu, a'i roi effeithioldeb i gymdeithas yr eisteddfodau cylchynol.

dyledus o ymddangos yn seren ddisglaer ar wawriad dydd tymhestlog. Byr yn wir a gauaf-aid oedd y diwrnod dilynol, a gorlwythog gan y tymhestloedd a ruthrent megis o'u ffau, yn rheuluoedd York a Lancaster. Y mae'r tymhestloedd hynny, yr ydym yn diolch i'r addoladwy ddwyfol Ragluniaeth, wedi treulio eu hanadl diweddafer er ys hir o amser. Yr ydym ni yn byw mewn hafddyddiau o wir grefydd a moesoldeb, a bydded i ni sydd yn byw yn y dyddiau hyn ymdrechu i sefydlu ynddynt y nod-wedd hynny.

Yn y flwyddyn 1451 cynhaliwyd Eisteddfod arbennig yng Nghaerfyrddin, dan nawdd y gwron gwir fawr Gruffydd ab Nicolas, ag ymddengys ei ddisgynydd urddasol (Arlwydd Dinefwr), a charwr ei wlad, yn gyfnerthydd i'n teilyngaf Arlwydd Esgob Ty Ddewi; ei law a gynorthwywyd yn egniol yn ngosodiad carreg sylfaen ein sefydliad vsblynydd, a than ei nawdd urddasol ef canfyddwn, gyda gorfoledd, wledd lenorol fawrwych arall yn nhref Caerfyrddin. Ag o Gaerfyrddin, megis o ganolbwynt, bydded i angylion gwybodaeth, dysg, a phob rhinweddau, o ba rai y dichon y meddwl dynol fod yn dderbyngar, gymeryd eu rhediad ym mhob cyfeiriad, ar aderydd yr holl wyntoedd, gan wlawio arnom oddiar eu hesgyll eurawg y bendithion deallol, heddwch, dedwyddwch, a doethineb pur. Pa le mae'r gwr awyddus i gael ei ystyried yn garwr ei wlad, yr hwn ni ddewisai, ag hyd eithaf ei allu a vmegniai ei hun i sicrhau llwyddiant i'r amcan mawrwych hynaws hwn?"

Gwasanaethodd Iolo fel beirniad ar yr achlysur yma* gyda'r Parch. Eliezer Williams, a Bardd

Nantglyn. Urddodd hefyd ei gyfaill Gwallter Mechain i'r gadair farddol am ei Awdl i'r cadfridog enwog, Syr Thomas Picton. Cynhaliwyd gorsedd yn ystod yr Eisteddfod hon, pryd y gweinyddodd Iolo yn ei holl fri; a hysbysir ni gan un oedd yn wyddfodol, fod y ddefod o dderbyn ymgeiswyr am urddau barddonol wedi gwneud argraff barhaus ar ei feddwl. Yr oedd Iolo wedi derbyn yr Urdd, sef "Bardd Braint a Defod," o law ei hen athraw Sion Bradford; a chydag awdurdod diamodol, safai ei hun ar y maen o fewn cylch yr Orsedd, sef y "Cylch Cyngrair," a gorchymynai yn awdurdodol i'r ymgeiswyr ddiosg eu hesgidiau oddiam eu traed cyn dyfod i'r cylch cysegredig.

Yr oedd yr Esgob Burgess yn bresenol, a dymunodd ar yr hen fardd adael heibio rai o'r defodau dechreuol, ond gwrthododd wneud yr eithriad lleiaf yng nghyflawniad ei swydd. Efe oedd yr Archdderwydd, ag nid oedd un llys nag awdurdod i gychwyn cwyn tu hwnt iddo ef yn y fan y safai.

Ar yr achlysur hwn gwnaeth wasanaeth o wir werth i'w genedl a'i barddoniaeth, sef rhyddhau, dan nawdd eisteddfod arbennig, yr awen Gymreig oddiwrth y llyfetheiriau ei gosodwyd ynddnt yn Eisteddfod Caerfyrddin o dan nawdd Gruffydd ab Nicolas. Y penderfyniad a basiwyd oedd,—

"Eu bod yn unfryd unllais, heb nag na gwrthwyneb, na llaw na thafawd, bod y rheithiadau cerdd, a freiniwyd yn Eisteddfod Caerfyrddin yn y flwyddyn o oed Crist 1451, dan enw y pedwar mesur ar hugain, yn cyfyngu awen y bardd o fewn

llyfetheiriau rhy gaethion, a bod yn rhy fynych o yr achaws synwyr a rhwyddineb iaith yn cael ei hoffrwm ar allor gwag-orchest egwanbwyll a diansawdd. Herwydd hyn, barn yr Eisteddfod hon yw,—bod o hyn allan ryddid i Feirdd Ynys Prydain gyfansoddi caniaadau ar y mesurau mwyaf teilwng a chyfaddas i eu testynau, ag na byddo rhagllaw wahaniaeth o barth teilyngdawd i ei roddi i fesurau yr un dosparth, na'r hen na'r newydd, rhagor, neu uwch na eu gilydd, ond bod urddas Cerdd neu Awdl uwch eraill i gael ei farnu wrth gymhwyllyadau synwyr, a phwyll, a chynghanedd rywiawg, a diledriw, yn hytrach nag wrth amrywiaeth mesurau.”

“CALON WRTH GALON.”

Mae yn amlwg bod llaw Iolo wedi bod wrth y gorchwyl o drefnu y penderfyniad uchod. Yr oedd yn dueddol i arfer iaith sydd yn chwyddedig ag aml eiriog. Y Beirdd Urddedig oedd bresennol yn pasio y penderfyniad uchod oeddynt.—Iolo Morgannwg, Gwallter Mechain, Dewi Silyn, Daniel Ddu, Gwilym Morganwg, Taliesin ab Iolo, Robert Davies, Bardd Nantglyn, a'r Parch. Eliezer Williams.

DALIADAU CREFYDDOL IOLO.

[Mae gwahanol ddaliadau wedi bod, ag yn bod eto, mewn perthynas i ddaliadau crefyddol Iolo Morganwg. Myn rhai haeru ei fod yn ymylu ar fod yn anffyddwr, o herwydd ei gyfeillgarwch â Tom Paine, a'i gydymdeimlad â hwnnw yn ei ddaliadau politicaidd. Ond mae yn bur amlwg, ond i ni ymgynabyddu ag ysgrifeniadau y bardd a'r llenor tryddawn, ynghyd a hanes ei fywyd hir a llafurfawr, nad oedd a fynnai o gwbl a daliadau Paine parth crefydd ag egwyddorion Cristionogaeth. O ran ei ddaliadau crefyddol mae yr Undodiaid yn ei hawlio yn gyfangwbl, ag nis gwyddom am yr un enwad arall wedi ceisio ei ddwyn oddiarnynt. Emynnau Iolo yw y lliosocaf yng nghasgliadau yr Undodiaid Cymreig, tra na cheir o bosibl un o'i waith yng nghasgliadau yr enwadau eraill. Hwyrach i Iolo gredu gormod mewn hen weddillion paganauidd, ag iddo arfer honiadaeth eithafol fel archoffeiriad y "Nod Cyfrin," ag yn hyn mae ei ddylanwad wedi aros ar rai o'i ganlynyddion hyd y dydd hwn.]

UNDOD DUW.

UN DUW Iôr yn Bôr, medd iawn bwyll,—y sydd
 Gan bob son goleubwyll;
 "Y mae tri," medd taerni twyll,
 Hyn imi'n honni amhwyll.

Mae'n amhwyll trydwyll dal tri-duw,—tri Naf,
 Tri Nefol uchel Dduw;
 Rhown y gerdd i'r Un gwir Dduw,
 I ni nid oes ond un Duw.

Un Duw, un gwir Dduw a gaf,—yn unig,
 Yn hwnnw gobeithiaf :
 A'm holl grêd ymddiriedaf
 Yn un haeddfawl Nefawl Naf.

Naf hyfawl, dwyfawl pob dawn,—arbennig
 Ior bywnerth cariadlawn,
 Un, cofier, ei enw cyfiawn,
 Un Iôn yw, a'i enwi'n iawn.

Iawnder yw cred yn un Duw—a'i hanes
 Gair hynod ein gwir-Dduw :
 Nid trydwyll ag hud tri-duw,
 Diau nid oes ond un Duw.

I'r un Duw cyfun cofais,—weini mawl,
 I'm Iôn mad ymgredais ;
 Chwilio'r Nef, un a gefais,
 Un yw'm coel, un i'm cais.

Yn awr i'r enw mawr un mad,—bo'r moliant,
 Gogoniant gwiw ganiad :
 Un Duw'n Iôn, un da'n vnad.
 Un tragwyddol, Dwyfawl Dad.

FY ARLWYDDES GAREDIG.

Cyfeithiad mydryddol o Lythyr y Parch. D.
 Jones, Efenglydd Llanganna, Morganwg, at yr
 Arlwyddes Huntington :—

Fy Arlwyddes garedig, derbyniais dy rodd,
 Dawn mawr dy hynawsedd yn beth wrth fy
 modd :

Tost iawn gan fy nghalon yw clywed dy gwyn,
 Ond rho di'th holl gred yn yr Arch sy'n dy
 ddwyn.

Fy Arlwyddes Garedig 99

Hi saif ar y dyfroedd dan y gwyntoedd yn syth,
Ar graig yn doredig, ni welir hi byth ;
Poed uchel ystormydd cynddeiriog y donn,
Bydd diogel er hynny bob enaid yn honn.

Nid ofnaf it' soddi—boed hynny iti'n wir,
Trwy'r moroedd tymhestlog ai'n gadarn i dir ;
A'i trwy'r holl beryglon a'th gylchant mor faith,
I borthladd y gwynfyd, yn llawen dy daith.

Ond os rhaid it' soddi, a myned i lawr,
Ar ol dy fawrhydi ni 'rosaf un awr ;
Cael rhan yn dy dynged, gwel gennyf fi, clyw !
Na chyda'th elynion gael aros yn fyw.

Beth bynnag dy ran, boed i minnau'r un hawl,
Wyd gyda thi'n foddllawn i fyned i ddiawl ;
Clyw'r Nef ein gorfoledd, hosanna'n ddifraw,
A bloedd Haleliwia bydd fallai'n ddi-daw.

Dan waelod y mynydd, yn eigion y tân
Ym'herfedd pwll uffern dyrchafwn y gân,
Ag yna'n ddibaid iechydwriaeth ein llef,
A'n gorffwys gwynfydig dros fyth yn y Nef.

Y llythyr Gwreidd o' :—

MY DEAR AND TRULY HONOURED LADY,—

Thanks to your Ladyship for your kind favour which received yesterday's post. D-n't be cast down ; the ark you are embarked in will never give up to the wave. Ride on, therefore, without fear. Though the billows may rage and foam you will not be disembarked till you are brought safe to your desired port. If you think in earnest you will sink, I had rather go to the bottom with you, than survive with the enemies. This is the truth. But if we must sink, Heaven shall hear our Hosannas, and perhaps our Hallelujahs, too : from the bottom of the mountains, and out of the belly of hell. Salvation shall be our song, and heaven be our rest for ever.

D. JONES.

ER COF.*

Er côf am Iorwerth ab Iorwerth Gwilym, o'r plwyf hwn, MAENSAER; tŷ pa un ar ol sefyll — mlynedd dan ymgyrch llawer bloeddwynt ang- erddol a syrthiodd yn garnedd ar yr — dydd o —. Er hynny, cesglir yr holl ddefnyddiau ynghyd, gan adael yr holl sothach ar ol, yn adeilad hardd a chadarn, yn waith tra chywrair a gogoneddus, wedi ei seilio dros fyth ar GRAIG YR OESOEDD, gan y PENSAER, a byth mwy ni syrth, byth mwy ni welir arno yr adfeiliad lleiaf.

Adeilad hardd bardd y bydd—i'w codiad
Yn gadarn a chelfydd,
Ton addien mewn ty newydd;
Gorfoledd ffaw yn rhodiaw'n rhydd.

GWEDDI'R BARDD.

I'th gvntedd, i'th hedd a'th haddef,—rhag cam,
Iôr, cymer fi adref;
Oes draul, boed yno'm ystref
Rhag cyrch ffawdd, yn nawdd y nef.
Bywif un yn gvfun a gwiwfeirdd,—y Tau
Lle mae torf dy wynfeirdd;
Iaith unfawl a'th awenfeirdd,
I weini'th fawl un o'th Feirdd.

* Yn ei lawysgrifau ceir y beddargraff canlynol, wedi ei twriadu ganddo i'w osod ar ei faen-coffa ei hun.

MESUR CERDD DAFOD CYFFREDIN.

1. TRIBAN MORGANWG.—Y mesur hynaf oll y sydd o'r rhai sy fyth ar arfer.

2. TRIBAN MENEICH, neu Driban y Blaenau.—

“O gwrthodi liw ôd gwyn,
Was teg felyn gudynau:
Mab di-wladaidd deg ei len,
A'i Awen yn ei lyfrau,
Cael o honnot aradigaeth
A pho gwaeth ei gynneddfau.”

3. TRIBAN MEIRIONYDD,—

“Dyma ddwr ag arno scim,
Dyma ddwr heb arno ddim;
Dyma ddwr ag arno drwch,
Edrychwch, gwelwch, Gwilym.”

4. MESUR CYHYDEDD GYRCH.—Yr un a'r Salmau Cymraeg.

5. MESUR HEN Y WLAD, fal ei gelwir ym Morganwg, ag mewn rhai llyfrau, sef mesur Hez Ficer Llanymddyfri.

6. MESUR GLAN Y MOR, fal ei gelwir ym Morganwg, ag mewn rhai llyfrau can mlynedd a hanner oed neu fwy, sef yr un mesur a “Golwg ar Deyrnas Crist” William Williams. Mae câr gennyf ar y mesur hwn mor belled yn ol ag amser y Frenhines Elisabeth; y mae arall hefyd yn Llyfr yr Hen Ficer.

7. MESUR UN SILL AR DDEG, ar gorfau gyrch ddyrchafedig.—Mae rhai caniadau mor belled yn ol ag amser Elizabeth, gan William Cap Du, ym Morganwg, Rhys Cain yn Ngwynedd.

8. TRI THRAWIAD.—Ym mhllith Beirdd Morganwg cyn belled yn ol o leiaf a'r flwyddyn 1500. Y mae hefyd yn lled fynych yn Llyfr y

Ficer. Humphry Dafydd ab Ifan, clochydd o Lanbryn-mair, oedd y cyntaf a'i harferodd yn Ngwynedd, medd Dafydd Ddu Eryri, o ben neu lyfr Dafydd Elis.

9. GWEL YR ADEILAD.—Y gân hynaf a welais i eto ar y mesur hwn yw un Domos Lewys o'r Llechau, yn nghylch 1620, ag un arall gan Fledwyn Sion o Lancarfan, yn nghylch yr un amser. Yr wyf yn bwrw mai gerllaw'r un amser y canwyd y gyntaf arno yn Ngwynedd.

10. MESUR Y FUWCH LAETHWEN, a elwir yn Ngwynedd *Crimson Velvet*.—Hen gân y Fuwch Laethwen yw'r hynaf ar gôf ar y mesur hwn.

11. MESUR "GWEGIL Y FWYELL."—Yn hen iawn. (Llygriad, mae'n debyg, o Gil y Fwyalch.)

12. MESUR Y "FUWCH BENFELEN."—Er 1600 o leiaf.

13. MESUR "YR EGLWYS NEWYDD."—Hen fesur cân yr Eos, yn nghylch amser Cromwell.

14. MESUR "Y BREGYN MOEL," "Nutmeg and Ginger," o gylch 1640 o leiaf.

15. CAN "RHOSYN YR HAF."—Yn nghylch cant oed (1700).

16. MESUR "DYDD DA I'WCH, GWEN LLIW'R LILI," a elwir "Mesur Carol" yn Ngwynedd.

17. MESUR "GWEDDUS YW'R GWEDDWDOD LLE BO," yn nghylch 1660 yr hynaf.

18. MESUR "LLYWYDD Y LLEUAD," ar arfer gan Dwm ab Ifan ab Rhys. (*Gwel "Hen Gwndidau."*)

19. "TIFEDDES Y COETY," *Nut Brown Maid*.—Mor hen ag amser Harri'r Wythfed.

20. MESUR "CAN Y CUNOGYN."—Arferid gan Wil Hopcyn o Langnywyd.


Mesur Cerdd Dafod 103


21. "MAE HYN O ACHOS GWEN."
22. "CANU'R EBOL GWINEU," neu Braw yn nh— y panwr.
23. Y "FEDEL FAWR."—Yn Ngwynedd y "Fedel fawr Glynhelicon," amser Domos Prys yr hynaf.
24. "YR EBOL COCH MAWR,"—
"Dydd da fo i'wch chwi'r Gannaid ar ganiad,
Fy ffrynd a'm cydymaeth gwastadol."
Arferid gan Harri Efan o Aberbargoed, o gylch amser Cromwell.
25. "CEFN PANWR," Bedwen Cefn Panwr.—
"Toriad y Ddydd" yn Ngwynedd.
26. MESUR "Y CADNO COCH."—"Y Daear Fochyn."
27. "CAN Y CRYMAN."
28. MESUR "DELW LLANDAFF,"—
"Gwrandewch bawb ar yr Achwyn Awchus."
28. "HOLL FEIBION DA DEWRION AR DON," a llawer eraill.

CYFARWYDDYD PARTH CERDD, GAN FEIRDD A
PHRYDYDDION CYMRU.

1. Naw Cwlwm Cerdd, cyn amser Taliesin.
2. Cwlwm Taliesin.
3. Cwlwm Ceraint Fardd Glâs, Caerloyw.
4. Cwlwm Mathrafael, Powys, Wynfa, neu un Cynddelw.
5. Hen Gwlwm Morganwg, a elwir Hen Gwlwm Tir Iarll.
6. Cwlwm Dafydd ab Gwilym.
7. Cwlwm Newydd Tir Iarll, ag arni bedwar mesur ar ugain o hen fesurau gwarantedigion o fraint ag o ansawdd celfyddyd, ag Einiawn Offeiriad o dir Gwyr, a ddodes arni dawddgrych gadwynol.
8. Cwlwm Llawdden.
9. Cwlwm Newydd Llawdden. Nid amgen na hen Gwlwm Morganwg a Thir Iarll.

Llawdden.—Mab o Gariadferch oedd ef i Thomas ab Hopcyn ab Einion, o Dir Gwyr. Syr Rhys Hen, o Abermarlais, ei doded mewn ysgol, ag ef a gyssegrwyd yn offeiriad, ag ym Machynlleth y bu byw hyd oedran, yna dychwelyd i Llandeilo yn Nghwyr, a chladdwyd ef yno yn hen iawn.—[*Allan o Lyfr Rhys Jones.—I.M.*]





EGLWYS TREFLEMIN.
Lle'r hun a Iolo Morgannwg ynddi.

Diarhebion Meddygol,

WEDI EU CODI O LYFR DEWI AB IAGO, GAN
I. MORGANWG.

A gysgo'n ddigwynos, nid rhaid iddo wrth
Rhiwallon Myddfai.

Nid yw hwyaid, a gwraig, a gafr gu' ond
pethau gwael.

Cwynos o afalau, boreufwyd o gnau.

Genau oer a thraed twym a fydd byw yn hir.

I farchnad y pysgod yn y borau, i'r gigfa
brydnawn.

Dwr oer a bara twym a wnant fol afiachus.

Tair cynneddf dwr,—Ni ddug afiechyd, dylea,
na gweddwdod.

Bwyta wyau heb halen a bair afiechyd.

Nid sarhad dwyn (ysbeilio) cwynos (swper) hen
wr.

Llyswen mewn pastai, a llamprei yn yr halen.

Cryd neu dwymyn ar doriad y dail sydd bob
amser yn hir neu yn angheuol.

Myn mis, oen tri mis.

Traed sychion, genau fr.

Gleisiad, a phregeth, a grawys.

Fe ladd cwynos fwy nag a wellhawyd erioed
gan Feddygon Myddfai.

Prydnawnfwyd ysgafn, cwynos lai, cwsg da,—
hir oes.

Na flysia laeth wedi pysgod.

Iechyd ieuencyd, afiechyd henaint, yw cwsg
lawer.

Clefyd byr i'r corff, a rhew byr i'r ddaear, a
iachant ag a gryfthant pob un o'r ddau, ond pob
un yn hir a ddiystriant.

Hir iechyd ieuentyd, a fyrha'r einioes.

Iachach aroglu bara twym (brwd) na'i fwyta

Tra phiswyf yn loyw, cardotted y meddyg.

Gwell yw blys na glothineb.

Digon o fara, ychydig o ddioid.

Bara c'doe, cig heddyw, a gwin y llynedd.

Tor dy syched lle cyrcho golchyddes ei dwr.

Tri dyn a fyddant hir oesawg, arddwr sychdir,
hafottwr mynydd, a physgotwr môr.

Tair gwledd iechyd,—llaeth, bara, a halen.

Tair meddyginiaeth Meddygon Myddfai,—Dŵr,
mêl, a llafur.

Iechyd yw llafur cymmedrol.

Tri chymmedroldeb a barant hir oes,—Ym-
borthi, llafur, a myfyrdod.

Na thorred ei gythlwng yn Mai, cyfrifed ei hun
gyda'r meirwon.

Yr hwn a welo ffanigl (*common fennel—fornic-
ulum vulgare*), ag nis casglo, nid dyn namyn
diafol yw.

O myri farw, bwyta ddeilliawl yn Awst.

Na pha faint a fwyteich, yf dairgwaith.

'E ddenfyn Duw fwyd i ddwylaw wedi eu
golchi.

Yf ddwr fal yr ych, a gwin fal Brenin, h.y., yn
gymmedrol.

Cynnildeb yw un wy, boneddigaidd yw dau,
glewder yw tri, a dihirdra yw'r pedwerydd.

Pei gwyped daid Iâr yn Ionawr, ni adewid un
ar y glwyd.

Caws defaid, llaeth geifr, menyn gwartheg
sydd oren.

Tri enllyn afiechyd,—Cig, cwrw, ac aefei
(sirion).

Tri enllyn iechyd,—Mêl, ymenyn, a llaeth.

Geirdddehonglydd (*Glossary*),

O eiriau arferedig yn y Wenhwyseg, eithr heb fod oll yn ddealladwy yng Ngwynedd, gydag eglurhad arnynt, gan Iolo Morganwg.

ball, palliant, ar wall, i ddnistr.

Ahan, gormes, gorddwy, terfsg.

Abethog, cyfoethog. Cefnog yw'r gair cyffredin ym Morganwg.

Ach, *n. masc.* Waterline
Achas, digofaint, gelyniaeth.

Aches, *n. fem.*, a river
Achlan, y cyfan, y cabl o l.—i gyd.

Achred, ammod, cyfadduned, cyfammod.

Ade byn, gwrthrediad *collision*.

Adfe'yd, cyflun, delw, cyfnith, siompl.

Addef, neu had def, trigfan, cartref neu breswylfa.

Adoer, oer iawn. [Yn iaith sathredig Forganwg heddyw, "bron sythu."]

Addwyn, rhinweddol, un-iawn.

Afar, hiraeth, galar, tristwch.

Agwrdd, tra chadarn, grymus.

Alltraw, tad cyfraith, tad dirwy (*father-in-law*).

Ambeirianu, amddiffyn, gwneud yn ddiogel o gylch.

Ambor, maethdir, glas-don, porfa frâs.

Ambyd, perygl amgylchynol.

Ammerth (*am-merth*), *adv.*, *opulent*. "Gwlad ammerth iawn yw Sir Gaer'oyw. This I heard from an old farmer. I never but there heard the word.

Ammoth, gwrthodiad cym-morth neu faeth.

Annel, ateg, ategydd, cynheiliad (*a prop or stay*).

Anoddyn, pwll diwaelod. (*anoddyfn*).

Arab, digrif, llon.

Arail, cyduno âg un peth, megis â'r da, â'r drwg, gwirionedd, a chari'd, &c.

Aran, gardd
Aran deg gylch eirian dy.
A gwindori yn y gwindy.

(HARRI IIR.)
Ardduniant, parch, gogonedd.

Aren, hyawdl, cymmen.

Arfod, hamdden, cyfleustra.

Arfoll, croesaw, croesawu.

Arwest, cân arwest, i'w chanu ar erddigan,—sef ar don.

Athres (*aeth-res*). Beth yw'r athres?—"What is the matter?" [*Gwent*].

Athrod, enllib, anair.

Bar, llid, digofaint.

Berth, glân, teg, prydferth, perffaith.

Can's yn dy fynwes berth ei thro.
WIL HOPKIN.

Bodoldeb, bod, hanfed, bodolaeth.

Braen, m all, briwedig.

Brawch, dychryn, braw, ofn

Brêg, briw, toriad.

Bregus briwlyd, peth wedi e friwio neu yn hawdd ei d'rri, a'i ddryllo.

Brewych, yn ei ofn, mewn dychryn.

Briug, ol troed, rhodle, llwybr.

Broch, lliid, di ter, digllonedd. [Mewn iaith sathredig, "A'i wrych ar ei dalcen"]

Brwyn, galar, tristwch, hiraeth.

Terwyn gwyn brwyn bron.

GR. AB MEREDVTH.

Brywog, meddw, pedronog.

Cain, goleudeg, claerlws, gloyw.

Cannaid, gwyn, glowd g.

Cannerth, cynheilydd cynhorthwy.

Cêd, cyfoeth, elw, budd.

Ceinmyged, urddas, parch, edmygedd, teyrnged.

Cerf, h.y., cerdd. *Carmen*.

Certh, dychrynlyd ofn-ady, arswydus, anferth.

Cest, y bôl.

Coelfain, newydd da.

Coledd, noddî, maethu, triniad, amaethiaid.

Craff, cyflawnder, digonedd ["Do's geni ddim rhyw graff mawr o wair i hela'r gwa'." " Rhaid cial craff o arian i gwneu tŷ"—TAFOD-IAITH MORGANWG.]

Creth, ansawdd, tueddiad.

Culi, cyfyngder. [Defnyddir y gair taro yn iaith gyffredin Morganwg i olygu yr un peth: " Mae'n daro digynnyg yn Bryn—, mae gwraig y tŷ wedi maw' l'"]

Cûn, brenin, arlwydd, arweinydd, blaenorydd.

Cwennu, esgyn, codi, dyrchafu.

Cyd-gyfred, cyd-edeleg o amgylch.

Cyfallwy, prif, Gorsedd gyfallwy, neu brif, y galwai yr hen Fe'rdd gwyliau y Pedair Alban, sef prif amseroedd, a dyddiau Cadair a Gorsedd, wrth fraint a defod Beidd Ynys Prydain.

Cyfamred, rheleg o amgylch.

Cyflwys, ba d i'r eithaf.

Cyflwyr, llwyr i'r eithaf, f ollol.

Cyfymbwyl, cyd-rheswm, cyd-rheswm [barnu yn deg].

Cymbwyl, rheswm dros beth.

Cyngyd, arfaethiad, bwria', diben.

Cynnor, cynnorthwywr, nerthiad.

Cysteg, cystudd, tralloid, gofid.

Cystwy, cerydd, cosp, dirboen.

Chwai, buan, ebrwydd, clau.

Chwarien, mwyn, addfwyn, araf.

Chweg, melus, dymunol, hyfryd.

Dadlyminwyd, (dadlym-iro), Gair a arferir ym Morganwg am ddad-glymmu, neu ddad-gyssylltu.

Darbyll, annoga-thi, per-swadio.

Darlais Gwlad, *common resort*.

Darwedd, tueddu at, cyd-ymwedd.

Deudneidiaith, iaith Gwynedd, y Wyndodeg.

Didwn, di-dor, cyfangwbl

Dielwad, distadled, mor wacedd, [Dyn dielwad, dyn gwag-siol].

Dien, cynhennid, genedig-ryw, eglurwedd; hefyd—pybur, bywiog, nwyfus.

Difog, creulawn, anhydwn.

Digardd, rhydd, anghyith.

Digraw, ni ellir ei gronni.

Dihenydd, diwedd. [Ym Morganwg mae y gair yn cael ei ddefnyddio am ddyonion ag anifeiliaid yn dyfod i'w diwedd drwy ddamwain.

"Dihenydd tost ddaeth iddo, druan," ddywedir am un wedi syrthio dros glogwyn neu fodd'n ddamweiniol.]

Dihewydd, awyddfryd, defosiwn.

Dineu, tywallt. "Dineu-gwael" = tywallt gwaed.

[Ceir y gair yn y Mabinogion].

Dir, angenheidrwydd sicr, diamau.

Dirio, rhwymweithredu, argymell, gorfodi.

Disgywen, hardd ei wên, serchogllw.

Diymbaid, dibaid.

Digymmod, diysymmud, diysgog, sefydlog.

Degned, cyfrin, digon.

Dwyfundodiaid, Undodiaid.

Dysgedron, athrawon.

Dyblino, (tyb lunio), dychmygu, neu dybio.

Dywenydd, llawenydd, hyfrydwch.

Fbrin, prin, o braidd.

Fedlym, bywiog, nwyf-lawn.

Feddyw, aeth, ffodd.

Fefyn, chwythrin, mymryn, temigyn.

Fefryn, diferyn anrhanadwy gan ei leid.

Feilir, adfywiad gwanwyn.

Firian, disgleirder, hardd dros ben.

Felwch, llawenydd, llonder; hefyd ynnill, llês, llôg.

Femmwys, or **Emwrys**, *strife, contention*.

Gwedi ymwrdd gwaedu Emmwys. [D. AB LLEW. AB GRUFF, o Fathafarn.]

Engyn, gwaed-ddyn, adill, egwan-ddyn.

Er h, dychrynlllyd, arswydus ofnadwy; hefyd—hagr, twyllodrus.

Erfawr, mawr i wn.

Ergain, hardd iawn.

Eurin, euraidd.

Ffaw, hyfryd'lon, gogoneddus, anrhydedd, parch.

Ffeth, *difficult*, tra-ffrith.

Ffraw, terydd, buangais, ffwdan, ar ffwrst, hardd, teg, ffyrnig.

Ffrawdd, ffyrnigrwydd.

Ffres, yn wresog, yn llawn
nwyl.

Ffridd, rhydd, breiniol, tir
ffridd—"Tir gwlad ac ar-
lwyd l."

Ffithoedd, tiroedd bras,
gwrtieithig.

Ffriw, wynepryd.

Ffuant rhagrith, cyfrwy-
der.

Ffüt, call, dysgedig

Ffunwys, Pobdir Llychlyn
(Scandinavia).

Ffwyr, ymgyrch llidfawr,
ffynigrwydd, ymlidgarwch.

Gawl, pur, glân, gwawl,
goleu.

Gawr, uche'gri, ban-floedd.

Glain, gem, maen gwerth-
fawr.

Gddaith, tân angherddol,
goddeithio, llo-gi yn ulw.

Goddig, llafar, sain.

Golychwyd, gweddi, ymbil
dwyfol.

Gorawen, llawenydd, di-
ddanwch.

Gorchau, caniaidau hyfryd
rhagorol.

Gorchwég, melus iawn,
hyfrydlawn.

Gorddfiog, creulon iawn.

Gorddwy, trai, aech : h.

Gorfodau, pethau rhaid eu
bod.

Gorlliw, lliw yn drech na
lliwiau eraill.

Gor-aing, a sango ar, a
seing ar eraill.

Gorsawel, sefydliad.

Gorsawu, sefydlu.

Goslef, peroriaeth, caniad-
lais.

Graen, galaethus, galarus,
gresynus.

Grefan, Maerof—"Man-
gre" yn y Ddeudneudiaith.

Gwawd'udd, rhywydd i
ganmawl.

Gwawl, golau, goleuni.

Gwâr, addfwyn, llariaidd,
mwyo, isel, gostyngedig.

Gwelyfod, gorweddi mewn,
gwe'vawd.

Gwill, buan, heinyf.

Gwiw'erth, gwiwdeg, tég
iawr.

Gwra'sg, gwaddol. "Pa
faist o wraig sydd genti?"—

"How much is her marriage
portion?"

Gwyd, pechod, llygrdig-
aeth.

Gwlyld, tyner, mwyn, tég.

Gwynwared, gwaredig-
aeth hapus.

Gwrdd, cadarn, cryf,
grymus.

Gwrlod, neu gwarlod.
Maes porfa, yn y Wenhwys-
eg; gwairglawdd, yn y Wyn-
dodeg; "Tir Gwndwn," yn

Nyfed; Tir Tôn ym Mor-
ganwg.

Gwrthneidiaid, Ymneilu-
wyr.

Gwyrth, rhiswedd, rhiw,
effaith.

Gwrtheuon, gwrthwyneb-
iaidau, gwrthddywediadau.

Gwrthloedd, digllonydd,
llidiawgrwydd.

Gwyndodeg, iaith Gwyn-
edd.

Haddef, anneddfa, trigfan,
cartref.

Hafal, tebyg, cyffelyb.

Hewydd awy'dfryd,
Hoen, golyg i'rh, cyfam-
liw.

Hydwyll, hawdd ei dwyllo,
un yn cymeryd ei dwyllo.

Hyddawn, hael, rhwydd.

Hyff, a yrrai ymlaen, un a
gefnog.

Hurthgeonod, dynion dwl,
heb wybodaeth.

Hyserch, serchus, caredig.

Hywedd, ar wybod, aml i'g.
hyddyg.

Hywyw, a wywa'n hardd,
gwywedig.

L Landeau, planigfau,
gwyddlan, coedlan.

Lleban, dyn dwl, dyn
gwladaidd, taegyn.

Llengar, dysgedig, gwy-
bodae hgar.

Llennyrch, rhodfeydd hyf-
ryd, troedffyrdd go ddirgel.

Llyw, llywydd, llywiawdr.

Mâd, da, daionus, rhag-
orol.

Madiain, urdda'ol, parch-
edig.

Maws, moesol, da, hyfryd.

Mefryd, myfyrio, astudio.

*Metempsychosis, traws
eneidiad, tramwy yr enaid, o
un corph i'r llall.

All animated beings originate in the lowest point of existence, whence by a regular gradation they rise higher and higher in the scale of existence, till they arrive at the highest state of happiness and perfection that is possible for finite beings. Beings, as their souls, by passing from ferocious to more gentle and harmless animals, approach the state of humanity, become ameliorated in their dispositions, less influenced by evil, and attain to some degree of negative goodness. Arrived at the state of humanity, MAN becomes accountable for his actions. Attaching himself to evil, he falls in death into such an animal state of existence as corresponds with the turpitude of his soul, which may be so great as to cast him down into the lowest point of existence, whence he shall again return through such a succession of animal existence as are most proper to divest him of his evil propensities. After traversing such a course, he will again rise to the state of humanity, whence, according to contingencies, he may rise or fall. Yet, should he fall, he shall again rise; and should this happen for millions of ages, the path to happiness is still open to him, and will so remain to all eternity, for sooner or later, he will infallibly arrive at his destined station of happiness, from which, when attained, he will never fall. The ultimate states of happiness are eternally undergoing the most delightful renovations, in endless successions. These renov-

Milawg, anifeilaidd, mil-einig.

Modiad, symmudiad.

Molediw, moledig, clod-fawr.

Mwll, edwin, abwydaidd.

Mwys, anezlur, ffracth.

Mydrwr, prydydd, bardd.

Mydrydd-aeth, celfyddyd, mesurau cân.

Mynog, mwyn addfwyn, llariaidd.

Mysaing, siangu, troed'o, mathru. [Mewn tafodiaith gyffredin, "bacso damshal."]

Nâd, llais, llef, achwyn-llais.

Notaynt, arferent.

Od, odiaeth, rhagorol, da odiaethol.

Osez, ar osteg, sef yn gyhoeddus lle mae y gwrandawriad yn astud.

Pau (pl. peuoedd), gwlad, annedd, preswylfa.

Pin, pin ysgrifenu.

Prydu, prydyddu, canu, barddoni.

Prydd, llawenryw, cyflawn-ryw: "llaeth prydd," "gwar theg prydd."

Pyd, perygl, "Ar nid yw pywll pyd yw."

Rhadfert' wch, haclioni, rhad bethau, bendith.

Rhagorau, rhagoriaethau, Rhên, arlwydd, brenin.

Rhi, Duw fel y mae yn Dad i bob hanfod bywyd'o.

Gwreiddin y pair rhieni.

Rhôn, gwaywffon

Rhybychaw, trachwantu.

Sâd, cadarn, cryf

Senw, anrhydedd, parch.

Syrth, tueddiad, ansawdd, naturiaeth

Tirf, bywiog, nwyfus.

Traidd, a drywana, a fratha.

Trefnau'r Abred, y *Metempsychosis*. [Gwel dan y gair hwnnw.]

Trên, nerthol, ga luog.

Treullif—llif nerthol

Três, gofid, llafur, peen.

Trasa, penteulu, pencenedl, pendefig.

Trwch, archoll, briw, anhappus, neu anfodiog

Trystan, blin, anhappus.


Urddain, urddol, urddasol.


Uthr, aruthrol, arswydus, ofnadwy.


Ynad, barnwr. Ysgrifenir weithiau mewn hen lawysgrifau "yngad," gair yn arwyddo call a doeth.

Ynni, cynhenigrwydd, egni y meddwl a'r deall.

ations will not, like the deaths of the lower states of existence, occasion a suspension of memory, and consciousness of self-identity."







Tynnwyd o'r
catalog
Withdrawn from
catalogue 8/2/07

